COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Elusennau

2016-17

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
2. Pwy ydym ni
3. Uchafbwyntiau o'r flwyddyn
4. Yr hyn yr ydym yn ei wneud
5. Adroddiad ar berfformiad
6. Atodiad cyfreithiol

# 1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r Adroddiad Blynyddol 2016-2017 hwn yn nodi sut y mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bodloni ein hamcanion strategol a sut yr ydym wedi rheoli'r risgiau i gyflawni ein hamcanion gweithredol a nodwyd yn ein Cynllun Busnes.

Hon oedd ail flwyddyn ein Cynllun Strategol 2015-2018. Mae ein cenhadaeth yn dal i fod yr un fath: i fod yn gofrestrydd a rheoleiddiwr effeithlon ac arbenigol.

Bu cynnydd o bron i £4 biliwn i incwm elusennau yr ydym yn eu rheoleiddio o'r flwyddyn cynt i gyfanswm o £74.7 biliwn eleni.

Roedd yn anrhydedd i ni fod Prif Weinidog y DU, y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, wedi dewis ein cyfarfod cyhoeddus blynyddol i wneud araith arwyddocaol ar ei gweledigaeth ar gyfer diwygio cymdeithasol. Ni allai fod unrhyw well arwydd o bwysigrwydd elusennau i'r wlad hon, ac o'n cyfrifoldeb fel rheoleiddiwr.

Yng nghyd-destun newid economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol dwys, mae'n rhaid i waith elusennau esblygu ac addasu'n ddramatig. Cafwyd anawsterau a chyfyngiadau ariannol cynyddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhai achosion uchel eu proffil o ansolfedd. Arweiniodd craffu cyhoeddus ar arferion codi arian annerbyniol, diffyg cydymffurfiad o ran diogelu data a llywodraethu gwael i ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau ostwng i lefelau digynsail yn 2016.

Fel rheoleiddiwr, ymatebwyd i'r heriau hyn gennym, yn aml mewn cydweithrediad â'r sector. Darparwyd ein hymateb ar sawl ffurf, gan gynnwys rhoi tystiolaeth ym Mhwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Elusennau, cefnogi datblygiad y Rheoleiddiwr Codi Arian a pharhau i bwysleisio ein blaenoriaethau allweddol sydd â'r nod o wella'r gwaith o lywodraethu elusennau.

**Nododd y Pwyllgor Dethol ar Elusennau mai elusennau yw llygaid, clustiau a chydwybod cymdeithas: "They mobilise, they provide, they inspire, they advocate and they unite. From small local organisations run entirely by volunteers to major global organisations with turnover in the hundreds of millions, their work touches almost every facet of British civic life."**

Ein prif bwyslais o hyd yw sicrhau cydymffurfiad ymddiriedolwyr â'u dyletswyddau – ymyrryd yn uniongyrchol, ceisio adferiad neu gymryd camau gorfodi. Ymgynghorwyd gennym ar ddefnyddio'r pwerau a ddiweddarwyd a roddwyd i ni gan Ddeddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016 a darparwyd canllawiau newydd gennym i elusennau o ganlyniad. Cryfhawyd ein gallu i asesu risg hefyd.

Rydym yn ceisio atal pethau rhag mynd o'i le yn y lle cyntaf, a chymerwyd camau pellach gennym i alluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn fwy effeithiol. Er enghraifft, fe wnaethom awtomeiddio prosesau data, gwella canllawiau a chynyddu hygyrchedd i'n hadnoddau.

Penodwyd Dirprwy Gofrestrydd gennym hefyd i sicrhau bod y gofrestr o elusennau yn gyfredol, yn gywir ac yn addas i'r diben.

Parhawyd i gyflawni ein blaenoriaeth o weithredu fel rheoleiddiwr effeithlon ac arbenigol gyda chynnydd yn cael ei wneud ar draws pob elfen o'n Rhaglen Weddnewid. Canolbwyntiwyd eleni ar reoleiddio a arweinir gan risg, effeithiolrwydd gweithredol, datblygiadau digidol a gwelliannau parhaus i ddiwylliant y Comisiwn.

Bydd parhau i reoleiddio elusennau'n effeithiol yn unol â'n cyllideb bresennol yn her sylweddol. Fel rheoleiddiwr cyfrifol, mae'n rhaid i ni archwilio ffyrdd o sicrhau bod gennym y cyllid sydd ei angen arnom, nawr ac yn y dyfodol, i reoleiddio elusennau mewn ffordd sy'n golygu y gall y cyhoedd ymddiried ynddynt a bod â hyder ynddynt.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar fodel ariannu cynaliadwy yn ddiweddarach eleni, yn amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

Diolchwn i holl staff y Comisiwn yn wyneb cyfyngiadau ar godiadau cyflog, llwyth gwaith sydd wedi cynyddu'n aruthrol a'r cyfyngiadau ar ein hadnoddau. Eu hangerdd a'u hymrwymiad nhw alluogodd y Comisiwn i gyflawni'r cwbl y mae wedi ei gyflawni eleni.

Bydd Prif Weithredwr newydd, Helen Stephenson, yn ymuno â'r Comisiwn yr haf hwn yn dilyn tymor tair blynedd llwyddiannus Paula Sussex; a bydd y Bwrdd yn pennu'r strategaeth ar gyfer 2018-2021.

Gobeithiwn y byddwch yn canfod fod ein hadroddiad yn grynodeb llawn gwybodaeth, difyr a chalonogol o'n cynnydd yn ystod blwyddyn 2016-2017.

| | |
|---|---|
| William Shawcross | Paula Sussex |
| Cadeirydd | Prif Weithredwr |

# 2. Pwy ydym ni

Y Comisiwn Elusennau yw cofrestrydd a rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adran annibynnol, anweinidogol o'r llywodraeth sy'n atebol i'r Senedd. Rydym hefyd yn atebol am arfer ein pwerau lled-farnwrol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) a'r Uchel Lys.

Rydym yn gyfrifol fel cofrestrydd am gynnal cofrestr gywir a chyfredol o elusennau. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a yw sefydliadau yn elusennol ac y dylid eu cofrestru yn ogystal â chael gwared ar y rheini na ystyrir eu bod yn elusennol mwyach, nad ydynt yn bodoli mwyach neu nad ydynt yn gweithredu. Fel rheoleiddiwr, rydym yn rheoleiddio elusennau cofrestredig ac elusennau nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cofrestru. Rydym yn rheoleiddio o fewn fframwaith cyfreithiol eglur ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig, gan sicrhau bod ein dull yn gymesur wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 167,063 o elusennau (a 16,455 o is-gwmnïau) ar y gofrestr.

Rheoleiddiwyd £74.7 biliwn o incwm elusennau gennym yn ystod y flwyddyn, sydd bron i £4 biliwn yn fwy na'r flwyddyn cynt, a dros £71 biliwn o wariant elusennau.

**Ein hamcanion statudol**

Mae'r Senedd, trwy Ddeddf Elusennau 2011, yn rhoi pum amcan statudol i ni, sef:

1. cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau
2. hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithrediad y gofyniad budd cyhoeddus
3. hybu cydymffurfiad ymddiriedolwyr elusennau â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o reoli eu helusennau
4. hybu'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol
5. gwella atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.

Mae gennym ddisgresiwn eang o ran sut yr ydym yn cyflawni ein hamcanion.

**Ein cenhadaeth**

Ein cenhadaeth yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol o elusennau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn hybu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau, gan annog trwy hynny rhoi elusennol yn ei holl ffurfiau.

**Ein dull rheoleiddio**

Mae ein dull rheoleiddio wedi ei gynllunio i fodloni disgwyliadau'r Comisiwn a nodwyd yn Neddf Elusennau 2011 ac yn Neddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016. Rydym yn canolbwyntio ar hybu cydymffurfiad ymddiriedolwyr elusennau â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, dwyn elusennau i gyfrif, hybu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau, hybu ymddiriedolaeth a'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol a sicrhau uniondeb y gofrestr elusennau.

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni a'n datganiad rheoleiddio ar gael ar GOV.UK.

## Ein swyddogaethau lled-farnwrol

Fel y cofrestrydd a rheoleiddiwr elusennau, rydym yn cyflawni swyddogaethau lled-farnwrol gan ddilyn y gyfraith gyffredin a rhwymedigaethau statudol sy'n llywodraethu elusennau. Rydym yn mabwysiadu dull trwyadl o arfer ein pwerau, yn gweithredu'n deg a chymesur ac yn rhoi rhesymau am ein penderfyniadau.

Pan fydd y gyfraith wedi dyddio, yn aneglur neu'n amwys ac, oni bai fod cynsail llym yn ein rhwymo, rydym yn mynd i'r afael â'r achosion mewn ffordd yr ydym yn credu y byddai'r llysoedd yn ei wneud. Caiff y gyfraith gyffredin ei datblygu gan y llysoedd yng ngoleuni amodau a gwerthoedd cymdeithasol ac economaidd sy'n newid, ac rydym yn cydnabod hyn yn ein penderfyniadau.

Gellir apelio yn erbyn arferiad llawer o'n pwerau cyfreithiol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) a gallai eraill fod yn desun adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Gallai penderfyniadau am statws a chofrestriad elusennol, y defnydd o'n pwerau i roi cyngor a chaniatâd ffurfiol, ein gwaith cydymffurfio wrth ymdrin ag ymchwiliadau a chymryd camau unioni yn erbyn ymddiriedolwyr sy'n methu â chydymffurfio a'r rheini sy'n camddefnyddio elusennau oll fod yn destun apêl neu adolygiad yn y ffordd hon.

Roeddem yn rhan o gamau ymgyfreitha eleni mewn achosion a ddygwyd yn erbyn ein penderfyniadau, a gyflwynwyd yn rhagweithiol gennym ni i sicrhau arian a gollwyd i elusennau, ac i geisio cyfarwyddiadau'r Llys i ddatrys materion cymhleth neu ddadleuol sy'n effeithio ar elusen. Mae rhai adroddiadau achos wedi eu cynnwys yn yr atodiad Cyfreithiol i'r adroddiad hwn.

## Ein blaenoriaethau strategol hyd at 2018

Mae ein strategaeth yn sicrhau elusennau a'r cyhoedd y byddwn yn gadarn yn ein dull o ymdrin â chamddefnydd a chamreolaeth o elusennau. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn ei gwneud yn haws ac yn fwy effeithlon i ymddiriedolwyr weithio gyda ni trwy wasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid, ac i redeg eu helusennau yn well trwy ddarparu canllawiau rheoleiddio eglur, hygyrch ac wedi eu targedu iddynt.

Bydd ein strategaeth hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd y Comisiwn fel rheoleiddiwr cadarn, rhagweithiol, cymesur, seiliedig ar risg. Mae'n cynnwys pedair blaenoriaeth strategol fel a ganlyn:

Blaenoriaeth 1: Diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli

Blaenoriaeth 2: Galluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol

Blaenoriaeth 3: Annog elusennau i fod yn fwy tryloyw ac atebol

Blaenoriaeth 4: Gweithredu fel rheoleiddiwr arbenigol ac effeithlon gyda chyllid cynaliadwy.

Mae ein Cynllun Strategol 2015-18 ar gael ar GOV.UK.

## Ein llywodraethu

Croesawyd tri aelod newydd o'r bwrdd gennym ym mis Tachwedd 2016; ymunodd Laurie Benson, Paul Martin a Catherine Quinn â'r Comisiwn gan ddod â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad newydd. Ymddiswyddodd Claire Dove o'r Bwrdd ym mis Mehefin 2016 a Gwythian Prins ym mis Ionawr 2017.

**Ein hadnoddau**

Yn 2016-17, pleidleisiwyd £22.9 miliwn o refeniw a £2.9 miliwn o gyllid cyfalaf i ni gan Drysorlys EM. Roedd y symiau hyn yn cynnwys £3.3 miliwn o'r £8 miliwn a ddyfarnwyd gan Drysorlys EM ar gyfer ein Rhaglen Weddnewid 2014-17.

Roedd gennym gyfartaledd o 290 o staff (cyfwerth ag amser llawn parhaol) yn ystod 2016-17, wedi eu strwythuro mewn pum cyfarwyddiaeth:

- Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gweithrediadau
- Polisi a Chyfathrebu
- Gwasanaethau Corfforaethol.

Arweinir bob un o'r cyfarwyddiaethau hyn gan gyfarwyddwr, sy'n atebol i'n Prif Weithredwr.

Hefyd, sefydlwyd Uned Asesu Risg yn 2016 sy'n atebol i'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol.

Rydym yn gweithio ar draws pedwar safle yn Lerpwl, Llundain, Casnewydd a Taunton. Mae ein swyddfa yng Nghasnewydd yn gweithredu'n ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

# 3. Uchafbwyntiau o'r flwyddyn

Mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

- gwelliant yn ein canlyniadau rheoleiddio ac o ran cosbi ymddiriedolwyr ac elusennau sydd yn fwriadol, yn esgeulus neu'n gyson yn methu â chydymffurfio â gofynion bod yn elusen, gan gymryd manteision statws elusennol
- gweithredu pwerau a darpariaethau newydd yn Neddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016: gan ddefnyddio ein pwerau newydd i'n helpu i reoleiddio'n fwy effeithiol yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd
- mabwysiadu dull mwy rhagweithiol, gan gynnwys asesiad risg thematig a monitro ar sail goruchwylio – rhannu arfer gorau ar draws y sector
- gwella cyflymder, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith tra'n ymdopi â niferoedd a gofynion cynyddol ar draws ein prif allbynnau gweithio achos, sy'n cynnwys:
    - caniatâd
    - cydymffurfiad
    - archwiliadau ac ymchwiliadau
    - gwasanaethau cofrestru
- darparu cam cyntaf ein rhaglen gwasanaethau digidol gan gynnwys gwasanaeth ar-lein Gwneud Cais i Gofrestru Elusen sy'n cynnig mynediad gwell i ymgeiswyr ac arbedion effeithlonrwydd
- penodi Dirprwy Gofrestrydd elusennau, gan gydnabod pwysigrwydd data elusennau a'n cofrestr gyhoeddus o elusennau
- diweddaru canllawiau a chyhoeddiadau polisi allweddol, wedi eu hategu gan ymgysylltiad rhagweithiol a rheolaidd gydag elusennau ar themâu llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol
- gwella ein heffeithlonrwydd trwy leihau ein costau llety.

# 4. Yr hyn yr ydym yn ei wneud

**Ein fframwaith risg a meysydd o flaenoriaeth o ran risg**

Mae ein fframwaith risg yn cyflwyno ein dull o reoleiddio ynghyd â'n datganiad o ddull rheoleiddio a'n Cynllun Strategol 2015-2018. Mae ein fframwaith risg ar gael ar GOV.UK

Dyma ein meysydd i flaenoriaethu o ran risg:

- twyll a mathau eraill o gamddefnydd ariannol o elusennau
- diogelu buddiolwyr, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed
- camddefnydd o elusen at ddibenion terfysgol neu i feithrin eithafiaeth
- diffygion sylweddol eraill o ran ymddiriedaeth neu ddiffyg cydymffurfiad sy'n effeithio'n sylweddol ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau.

Mae'r fframwaith risg yn amlinellu:

- sut y mae'r Comisiwn yn gweithredu ac yn goruchwylio rheoliadol seiliedig ar risg trwy asesu a rheoli risg
- sut y mae'r Comisiwn yn penderfynu pryd ac ym mha ffordd y bydd yn ymgysylltu
- canlyniadau posibl ei ymgysylltiad.

**Y Gynghrair Cefn Gwlad**

Gwnaeth y sefydliad hwn gais i gofrestru fel elusen. Roedd ei ddibenion yn ymwneud â chadw, gwarchod a hyrwyddo treftadaeth ac arfer gweithgareddau yn ymwneud â bywyd gwyllt, cefn gwlad a rheoli bywyd gwyllt gan gynnwys hela, saethu a physgota, ynghyd â rheoli'r amgylchedd naturiol, hyrwyddo helgig neu gynhyrchu helgig; a datblygu bywyd cymunedol gwledig.

**Pam y rhoddasom sylw i'r cais:** Ystyriwyd y cais hwn gennym i asesu pa un a yw'r sefydliad wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol er budd y cyhoedd yn unig. Roedd hyn yn cynnwys ystyried pob un o'i ddibenion yn fanwl.

**Y camau a gymerwyd gennym:** Yn dilyn ystyriaeth ofalus, daethpwyd i'r casgliad gennym fod rhai o ddibenion y sefydliad, ond nid pob un, yn elusennol er budd y cyhoedd. Gan nad oedd ei ddibenion yn gwbl elusennol, ni ellid ei gofrestru fel elusen.

**Effaith ein hymyrraeth:** Gwrthodwyd y cais i gofrestru gennym, a chyhoeddwyd dogfen penderfyniad a oedd yn esbonio pam roedd y dibenion y tu hwnt i gwmpas yr hyn y mae'r gyfraith yn ei gydnabod fel dibenion elusennol.

**The Theosophical Society in England**

Gwnaeth y sefydliad hwn gais i gofrestru fel elusen. Ei ddibenion oedd hybu lles moesol ac ysbrydol a datblygu addysg trwy hyrwyddo ac astudio Theosoffi.

**Pam y rhoddasom sylw i'r cais:** Ystyriwyd y cais hwn gennym i asesu pa un a oedd y sefydliad wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol er budd y cyhoedd yn unig. Mewn penderfyniadau ar wahân a wnaed ym 1943 a 1957, penderfynodd yr Uchel Lys nad oedd Theosoffi yn grefydd at ddibenion cyfraith elusennau, ac ystyriwyd gennym ni a oedd newidiadau i'r gyfraith ers y penderfyniadau hynny yn golygu y gellid cofrestru'r sefydliad fel elusen erbyn hyn.

**Y camau a gymerwyd gennym:** Yn dilyn ystyriaeth ofalus, daethpwyd i'r casgliad bod dibenion y sefydliad hwn yn gwbl elusennol, gan iddo gael ei sefydlu ar gyfer hyrwyddo gwelliant moesol neu foesegol a datblygu addysg er budd y cyhoedd.

**Effaith ein hymyrraeth**: Cofrestrwyd y sefydliad gennym fel elusen.

# Cofrestru

**Penderfynu a yw elusennau'n bodloni'r prawf cyfreithiol ar gyfer statws elusennol**

Rydym yn gwneud asesiad ffurfiol o'r holl geisiadau i gofrestru ar sail achosion unigol gan ddefnyddio ein fframwaith risg.

Rydym yn gwarchod ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau trwy ganiatáu cofrestriad fel elusen dim ond i'r sefydliadau hynny sy'n bodloni'r profion cyfreithiol ar gyfer elusen yn briodol. Rydym wedi cryfhau ein dull o asesu pan un a yw ymgeiswyr yn wirioneddol elusennol ac mae hyn yn cynnwys dull mwy trwyadl o wirio'r wybodaeth y maent yn ei darparu i ni.

Gall ein penderfyniad i gofrestru neu i beidio â chofrestru sefydliad fel elusen, neu i dynnu sefydliad oddi ar y gofrestr, gael ei herio yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) gan y sefydliad, ei ymddiriedolwyr, neu unigolyn sy'n cael ei effeithio gan y penderfyniad.

Gall dyfarniadau'r Tribiwnlys ynghylch a yw sefydliadau wedi eu sefydlu at ddibenion elusennol gynorthwyo elusennau, y Comisiwn a'r cyhoedd ehangach i ddeall dehongliad a datblygiad y gyfraith.

Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o'r broses gofrestru i nodi sefydliadau a allai, er eu bod yn elusennol, godi pryderon llywodraethu neu gydymffurfio ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Cyflwynwyd proses monitro ôl-gofrestru â mwy o bwyslais o'r elusennau hyn gennym hefyd.

**Cynnal y gofrestr o elusennau**

Ein nod yw sicrhau bod y gofrestr elusennau yn gywir ac yn gyfredol ac yn gwneud gwybodaeth allweddol ar gael yn rhydd i'r cyhoedd ar-lein. Defnyddir ein data hefyd gan lawer o gyrff cyhoeddus eraill, elusennau a sefydliadau ymchwil fel y sail ar gyfer ystadegau am y sector elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i elusennau ddarparu gwybodaeth benodol amdanynt eu hunain ac i wneud hynny'n brydlon.

Am resymau yn ymwneud ag atebolrwydd a thryloywder, mae'r gofrestr ar-lein yn dangos gwybodaeth allweddol am ddibenion a gweithrediadau elusennau. Rydym yn amlygu ar y gofrestr elusennau sy'n methu â chydymffurfio â gofynion gwybodaeth sylfaenol, fel cyflwyno datganiadau blynyddol a chyfrifon, ac elusennau sy'n destun ymchwiliad statudol neu, pan fyddwn yn gwybod amdano, elusennau sydd â chyfrifon amodol neu sydd mewn proses ansolfedd. Rydym hefyd yn tynnu elusennau nad ydynt yn bodoli neu'n gweithredu mwyach oddi ar y gofrestr bob blwyddyn.

# Rheoleiddio

**Ymdrin â phroblemau mewn elusennau**

Rydym yn ymdrin â phroblemau mewn elusennau mewn nifer o wahanol ffyrdd yn dibynnu ar y broblem a pha mor ddifrifol yw hi. Os byddwn yn penderfynu gweithredu, gall ein hymgysylltiad rheoleiddio amrywio o ddod i'r casgliad bod gan yr ymddiriedolwyr faterion dan reolaeth i sefydlu ymchwiliad statudol.

Mae materion cymhleth, difrifol, newydd a mwy uchel eu risg yn fwy tebygol o sbarduno ymgysylltiad rheoleiddio ag elusen.

Rydym yn gweithio gydag asiantaethau a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod problemau yn cael sylw ac i osgoi dyblygiad a sicrhau rheoleiddio effeithiol a chadarn. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag ymddiriedolwyr, buddiolwyr a/neu gyflogeion yr elusen a chyda thrydydd partïon, gan gynnwys cynghorwyr cyfreithiol, archwilwyr annibynnol ac archwilwyr ariannol (yn enwedig pan fo honiadau o dwyll neu gam-drin ariannol).

**Ein pwerau**

Mae gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau statudol y gallwn eu defnyddio i roi terfyn ar gam-drin a gwarchod asedau a buddiolwyr elusennol. Mae ein pwerau yn cynnwys:

- pwerau casglu gwybodaeth, sy'n ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth neu ddogfennau, neu ei gwneud yn ofynnol i unigolion a enwir i gyfarfod â ni ac ateb cwestiynau
- pwerau gwarchod dros dro, sy'n ein galluogi i warchod eiddo elusennol am gyfnod dros dro tra byddwn yn parhau i ymchwilio
- pwerau unioni sy'n ein galluogi i weithredu atebion hirdymor i broblemau, a nodir gan ymchwiliad yn aml.

Mae ein pwerau gwarchod ac unioni dros dro yn cynnwys:

- cyfyngu ar y trafodion y gall elusen ymgymryd â nhw
- penodi ymddiriedolwyr ychwanegol
- rhewi cyfrif banc elusen
- gwahardd neu gael gwared ar ymddiriedolwr
- penodi rheolwr dros dro.

Pan fydd pryderon difrifol am gam-drin mewn elusen, gallwn sefydlu ymchwiliad statudol o dan adran 46 Deddf Elusennau 2011. Gallwn wneud hyn pan fyddwn yn bryderus efallai y bu gamymddwyn neu gamreoli mewn elusen, pan fydd ei asedau mewn perygl, neu pan fo angen gwarchod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusen neu elusennau. Diben ymchwiliad yw canfod y ffeithiau. Nid yw'n benderfyniad ynddo'i hun gan y rheoleiddiwr o ddrygioni mewn elusen, ac eithrio pan allai fod rhaid i ni ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol ar unwaith. Y nod yn y pen draw yw rhoi terfyn ar gam-drin, sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith a rhoi'r elusen yn ôl ar sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Mae sefydlu ymchwiliad yn galluogi'r Comisiwn i ddefnyddio ei holl bwerau casglu gwybodaeth a gorfodi.

**Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016 – gweithredu pwerau a darpariaethau newydd**

Daeth nifer o'r darpariaethau sy'n cryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer elusennau ar godi arian a buddsoddi cymdeithasol i rym yn ystod y flwyddyn, gan roi pwerau newydd i ni i'n helpu i reoleiddio'n fwy effeithiol yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein dull o ran y defnydd o ddau o'r pwerau rhagweithiol newydd - i gyflwyno rhybuddion swyddogol (a.1 Deddf 2016) ac i ddatgymhwyso unigolion o fod yn ymddiriedolwyr ac yn uwch reolwyr am gyfnodau o hyd at 15 mlynedd (a.10 Deddf 2016). Cynhaliwyd y ddau ymgynghoriad am gyfnodau o 12 wythnos yn ystod haf 2016, cynhaliwyd trafodaethau gyda rhai o'r cyrff ambarél a phroffesiynol allweddol a

derbyniwyd, yn eu trefn, 44 a 51 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd y ddau ymarfer ymgynghori o gymorth i sicrhau bod fersiynau terfynol ein canllawiau yn darparu lefel y manylder sy'n angenrheidiol i ddeall yr amgylchiadau pan fyddem yn defnyddio'r pwerau hyn.

Mae'r ffigurau hyn ar y defnydd o'n pwerau yn cynnwys defnyddio pwerau presennol a ddiweddarwyd, yn ogystal â defnydd o bwerau newydd. Mae'r pwerau newydd yn cynnwys yr hysbysiadau statudol gorfodol y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno cyn defnyddio rhybuddion swyddogol a phwerau datgymhwyso dewisol, yn ogystal â gorchmynion terfynol. Mae'r defnydd hwn o bwerau newydd yn cyd-fynd â'n disgwyliadau na fyddai'r defnydd o'r pwerau hyn yn effeithio ar y mwyafrif llethol o elusennau, a byddai'n cael ei gyfyngu dim ond i'r elusennau ac unigolion hynny lle byddai'r defnydd o'r pwerau hyn yn ymateb cymesur i ddifrifoldeb y risgiau dan sylw.

Nid yw darpariaethau Deddf 2016 o ymestyn y meini prawf ar gyfer datgymhwyso ymddiriedolwyr yn awtomatig wedi cael eu rhoi ar waith eto. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn datblygu'r canllawiau a'r wybodaeth angenrheidiol i elusennau i sicrhau gweithrediad didrafferth. Rydym hefyd yn diwygio ein deunyddiau yn ymwneud â hawlildiadau; gallwn awdurdodi'r rhain pan ei bod yn eglur mewn achosion penodol na ddylid atal cyfraniad unigolyn at arweinyddiaeth elusen o ganlyniad i ddatgymhwysiad awtomatig. Rydym wedi gweithio ar y canllawiau hyn yn adeiladol gyda chyrff yn y sector a grwpiau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu troseddwyr.

| |
|---|
| Defnyddiwyd pwerau newydd neu ddiwygiedig a gyflwynwyd gan Ddeddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016 gennym wyth gwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarwyddo camau i beidio â'u cymryd a chyflwyno'r hysbysiad cyntaf o'n bwriad i gyflwyno rhybudd swyddogol. 26 oedd cyfanswm y nifer o weithiau a ddefnyddiwyd y pwerau newydd hyn gennym, neu'r rhai a ddiweddarwyd gan Ddeddf 2016, erbyn 31 Mai 2017. |

**Monitro cydymffurfiad**

Mae monitro cydymffurfiad yn un ffordd y mae'r Comisiwn yn ymchwilio ac yn monitro pryderon am gam-drin a diffyg cydymffurfiad yn y sector.

Mae'r Comisiwn yn gwneud gwaith monitro elusennol rhagweithiol a dilynol. Nodir elusennau ar gyfer monitro rhagweithiol ar sail ffactorau risg amrywiol, er enghraifft y rheini sy'n gweithredu mewn ardaloedd uchel eu risg, yn ymgymryd â gweithgareddau uchel eu risg, y rheini sydd wedi hysbysu am broblemau rheoleiddio yn y gorffennol neu wedi gwneud ymrwymiadau ar eu cofrestriad yr ydym yn dymuno gwneud gwaith dilynol yn eu cylch. Eleni, rydym wedi bod yn defnyddio'r data a'r wybodaeth a ddarparwyd mewn datganiadau blynyddol a chyfrifon er mwyn helpu i nodi pa elusennau i'w monitro.

Gallai monitro gynnwys:

- gwaith ymchwil desg
- gohebu ag ymddiriedolwyr neu eu cyfweld
- ymweld â safle'r elusen
- archwilio cofnodion ariannol yr elusen.

Gallai hyn arwain at roi cyngor rheoleiddio i ymddiriedolwyr yr elusen; llunio cynllun gweithredu a sicrhau ei fod wedi cael ei roi ar waith; neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, sefydlu ymchwiliad statudol.

Mae gwaith goruchwylio a monitro rheoliadol y Comisiwn yn cynnwys craffu priodol ac wedi ei dargedu ar gyfrifon.

Rydym bob amser yn gwneud gwaith monitro dilynol pan fyddwn wedi ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr gymryd camau penodol i gael sicrwydd a gwirio eu bod wedi gweithredu yn sgil ein cyngor rheoleiddio.

**Galluogi elusennau**

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith gydag elusennau yn golygu defnyddio ein pwerau i helpu elusennau i weithredu'n fwy effeithiol. Prin iawn yw'r disgresiwn sydd gennym ynghylch pa ganiatâd yr ydym yn ei roi; os oes angen ein caniatâd, yna mae'n ddyletswydd arnom i ystyried pa un a ddylem ei roi ai peidio.

Gall achosion cymhleth fod angen mwy o adnoddau oherwydd y materion technegol dan sylw neu gymhlethdod y trafodyn arfaethedig. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- uno
- achosion yn ymwneud ag elusennau lle mae deddfwriaeth arall (nad yw'n ymwneud ag elusennau) yn berthnasol (fel ymddiriedolaethau addysg a rhandiroedd)
- ceisiadau am daliadau cydnabyddiaeth bwrdd cyfan
- achosion lle ceir gwrthwynebiad i gynigion yr ymddiriedolwyr, fel gwerthu eiddo dynodedig
- achosion anghydfod, er y byddwn yn cymryd rhan dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol
- awdurdodiadau mewn achosion cymhleth

O ran nifer, mae'r tri math mwyaf cyffredin o orchmynion yr ydym yn eu gwneud yn ymwneud â:

- breinio'r Ceidwad Swyddogol ar gyfer Elusennau
- gwaredu eiddo – tir yn bennaf
- taliadau cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr.

Cyflwynwyd proses gorchymyn breinio swmp (cyfanredol) newydd gennym eleni, lle gallwn wneud gorchmynion breinio swmp yn fisol. Gwnaeth hyn y broses yn fwy effeithlon, gan ryddhau capasiti ar gyfer gwaith mwy amser-critigol, a fydd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch pryd y bydd eu gorchymyn breinio yn cael ei wneud i ymgeiswyr sydd angen y math hwn o gymorth.

**Ein gwaith gyda rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill**

Cafodd ardaloedd gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr eu datgan gan 16,731 o elusennau eleni; mae gan yr elusennau hyn incwm cyfunol o £15.95 biliwn. O'r rhain, nodwyd ffigur cyfunol o £6.65 biliwn ar gyfer gwariant tramor gan 7,943.

Diben ein gwaith rhyngwladol yw sicrhau cymorth ac arbenigedd priodol ar gyfer rheoleiddio elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac mewn awdurdodaethau eraill.

Mae hyn yn cynnwys allgymorth wedi ei dargedu i elusennau yn y DU sy'n gweithio'n rhyngwladol ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr craidd, gan gynnwys:

- monitro a gwirio cyllid a wariwyd dramor
- gweithio gyda chyrff ambareli i ddosbarthu canllawiau ac argymhellion ar symud arian yn ddiogel a gwirio a rhoi cyfrif am gyllid
- cymryd camau i atal cam-drin ac mewn cydweithrediad â phartneriaid mewn rhai achosion.

Roedd hanner ein rhybuddion rheoleiddio eleni wedi eu hanelu'n rhannol at elusennau sy'n gweithredu dramor

- sicrhau ein bod yn cadw'n ddigon ymwybodol o ddatblygiadau mewn fframweithiau rhyngwladol ar gyfer rheoleiddio elusennau, ac ymateb iddynt
- ceisio addasu safonau rhyngwladol pan fo'n briodol
- cynorthwyo cyrff rheoleiddio eraill i sefydlu fframweithiau rheoleiddio effeithiol, rheoleiddio'n deg ac yn dryloyw trwy rannu arfer gorau, profiad ac offerynnau a gweithdrefnau gweithredol sy'n unigryw i ni
- cynorthwyo datblygiad sectorau elusennol iach ac atebol ledled y byd.

Er mwyn rheoleiddio sector amrywiol mor effeithiol â phosibl, mae'r Comisiwn wedi creu cysylltiadau strategol a gweithredol effeithiol gydag amrywiaeth o reoleiddwyr eraill, asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac adrannau llywodraeth. Er bod y Comisiwn yn amddiffyn ei annibyniaeth yn gadarn, mae cydweithredu effeithiol a gweithio cydgysylltiedig yn hanfodol ar gyfer rheoleiddio effeithiol, yn enwedig gan ein bod yn rheoleiddiwr sifil ac nad ydym yn gallu dwyn achosion troseddol ein hunain.

Rydym wedi gweithio gyda rheoleiddwyr elusennau a sefydliadau anllywodraethol yn y DU a'r UE. Mae ein perthynas gydag OSCR (Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon (CCNI) yn dal i fod yn gryf, gyda chyfarfodydd rheolaidd i drafod polisi rheoleiddio a materion gweithredol a gwaith ar y cyd ar arfer cyfrifyddu gydag OSCR. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol fel rheoleiddiwr Awstralia ar ddatganiadau elusennol digidol, a chyda Tsieina ar gyfraith elusennau. Ariennir rhywfaint o'r gwaith hwn yn rhannol gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Corff rhynglywodraethol yw'r Tasglu Gweithredu Ariannol, sy'n pennu'r safonau ar gyfer ymladd bygythiadau i systemau ariannol rhyngwladol, gan gynnwys gwyngalchu arian ac ariannu trosedd. Mae wedi datblygu cyfres o argymhellion gan gynnwys Argymhelliad 8 (A8) ar gyfer y sector elusennau (dielw).

Mae'r Comisiwn, ar ran y llywodraeth ac mewn cydweithrediad â Thrysorlys EM, wedi lobïo'r Tasglu Gweithredu Ariannol ar gyfer newidiadau i A8 a'i Nodyn Deongliadol a chroesawodd ei benderfyniad i adolygu'r rhain yn ffurfiol. Roedd hyn yn dilyn cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn a deialog gyda chynrychiolwyr o'r sector elusennau – yn enwedig y rheini sy'n gweithredu'n rhyngwladol gan ddarparu gwasanaethau a chymorth dyngarol – lle casglodd y Comisiwn dystiolaeth a sylwadau ar sut y gellid diwygio A8 a'i Nodyn Deongliadol.

Ym mis Mehefin 2016, diwygiodd y Tasglu Gweithredu Ariannol A8 a'r Nodyn Deongliadol, a chroesawyd hyn gan y Comisiwn a chynrychiolwyr o'r sector. Cynrychiolodd y Comisiwn Lywodraeth Ei Mawrhydi yn y Tasglu Gweithredu Ariannol lle gwnaed y diwygiadau hyn. Mae A8 yn cydnabod yn eglur erbyn hyn nad yw pob sefydliad dielw yn arbennig o agored i gam-drin ariannu terfysgol ond bod eraill yn agored i niwed trwy rinwedd yr hyn y maent yn ei wneud a ble maent yn gweithredu. Mae newidiadau eraill yn ei gwneud yn eglur bod rhaid i ymyriadau gan wledydd i warchod sefydliadau dielw rhag achosion o gam-drin fod yn gymesur a pheidio ag amharu ar weithgarwch elusennol cyfreithlon na'i atal. Roedd hwn yn bryder a godwyd gan nifer o elusennau sy'n gweithredu mewn gwledydd eraill a oedd yn dadlau bod A8 y Tasglu Gweithredu Ariannol yn cael ei ddefnyddio i gyfyngu ar weithgareddau sefydliadau dielw.

Bydd y DU yn destun 'cydwerthusiad' gan y Tasglu Gweithredu Ariannol yn 2018 ac mae'r Comisiwn yn parhau i weithio gydag adrannau llywodraeth eraill - yn enwedig Trysorlys EM a'r Swyddfa Gartref - i baratoi ar gyfer hyn.

# 5. Adroddiad ar berfformiad

Mae'r adran hon yn crynhoi ein cynnydd yn erbyn y pedair blaenoriaeth strategol a nodir yn ein Cynllun Strategol 2015-18.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad gweithredol ar gyfer ei waith achos. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ddangosyddion perfformiad allweddol mewnol, gan gynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n olrhain nifer yr achosion yr ydym yn ymdrin â nhw a'r amser cyfartalog a gymerir i ddatrys achosion. Maent hefyd yn mesur nifer y cyfrifon a'r datganiadau blynyddol a gyflwynir yn brydlon a'u hansawdd.

Mae dau o'r dangosyddion perfformiad allweddol yn allanol – cyfeirir atynt fel dangosyddion perfformiad allanol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried rhai o'n dangosyddion perfformiad allweddol a'n dangosyddion perfformiad allanol.

## Blaenoriaeth 1: Diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli

Fel yr ydym wedi ei weld yn y blynyddoedd diwethaf, mae camddefnydd o unrhyw fath mewn elusen yn niweidio enw da'r sector cyfan, pa un a yw'r camddefnydd yn fwriadol neu'n digwydd trwy gamreolaeth.

Ers 2013, rydym wedi cryfhau ein dull o fynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli mewn elusennau. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol a lle'r ydym yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'n hymgysylltiad rheoliadol ag elusennau.

### Asesu risg a chael ein hysbysu gan ddata gwell

Rydym wedi bod yn gwneud gwell defnydd o'n data eleni i atal a chanfod achosion o gam-drin. Mae gwell defnydd o ddata, ynghyd â defnyddio'r fframwaith risg, wedi ein helpu i ganolbwyntio ein hadnoddau ar yr achosion sydd eu hangen fwyaf.

Mae'r Cynllun Strategol yn cydnabod bod rhaid i ni fod yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar risg sy'n canolbwyntio ar orfodi ac atal yn bennaf er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd ymddiried yn yr elusennau yr ydym yn eu rheoleiddio i'r safon y mae'r Senedd a'r cyhoedd yn ei disgwyl.

Er mwyn bodloni'r disgwyliad hwn, bu llawer o'r pwyslais dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar ddarparu'r flaenoriaeth strategol hon.

Er mwyn cryfhau gallu'r Comisiwn i weithredu fel cofrestrydd a rheoleiddiwr rhagweithiol a ysgogir gan ddata ac a arweinir gan risg, sefydlwyd Uned Asesu Risg newydd gennym ym mis Rhagfyr 2016. Ei diben yw datblygu gwell dealltwriaeth o'r risgiau rheoleiddio a wynebir gan y sector elusennau. Bydd yr Uned Asesu Risg yn gartref i broses brysbennu porth newydd a gwell yn darparu'r asesiad risg cychwynnol ar gyfer y rhan fwyaf o gwynion a cheisiadau sy'n dod i mewn i'r Comisiwn.

Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae'r Comisiwn yn defnyddio data a ddarperir gan elusennau, yn eu datganiadau blynyddol ac yr y gofrestr elusennau, i asesu gwahanol risgiau fel y'u nodwyd yn y fframwaith risg ac i sicrhau dull cyson a ysgogir gan ddata.

Bydd yr uned hon yn datblygu ei gallu dadansoddol i nodi risgiau yn y dyfodol a phroblemau posibl sy'n dod i'r amlwg mewn elusennau. Er enghraifft, bydd yn nodi tueddiadau yn y problemau a adroddir gan elusennau i'r Comisiwn fel digwyddiadau

difrifol. Bydd yr Uned Asesu Risg hefyd yn dadansoddi data i hysbysu Cynllun Busnes blynyddol y Comisiwn.

**Gwaith cydymffurfiad cyflymach a mwy effeithiol**

Darparwyd camau cydymffurfio a gorfodi llym gennym eleni, gan wneud defnydd hyderus o'n pwerau newydd i darfu, atal a chosbi diffyg cydymffurfiad difrifol ac achosion o gam-drin elusennau. Gallwn ddangos sut y mae mynd i'r afael â cham-drin yn cynyddu cydymffurfiad ac ymddiriedaeth yn y sector. Bydd ymgysylltu gwell â rheoleiddwyr eraill, asiantaethau llywodraeth a chyrff eraill, manteision ar ddata, a deall risg a thueddiadau'r sector yn parhau i'n galluogi i ddylanwadu ar ymddygiad ymddiriedolwyr a chanfod ac atal achosion o gam-drin elusennau yn well.

Ymdopwyd â chynnydd i'n gwaith cydymffurfiad gan sicrhau cynnydd sylweddol hefyd o ran dirwyn achosion hŷn i ben.

- gostyngiad o 22% i nifer yr ymchwiliadau mwy na blwyddyn oed
- 248 o elusennau yn destun ymchwiliad ar ddiwedd y flwyddyn (2015-16: 135)

Cynyddodd nifer yr achosion ymchwiliad newydd a agorwyd eleni i 187 (2015-16: 52) am y rhesymau canlynol: sefydlwyd ymchwiliad dosbarth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys 74 o elusennau cysylltiedig

- mwy o elusennau'n dod yn rhan o'r ymchwiliad dosbarth troseddwyr dwbl
- cynnydd i elusennau eraill yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymchwiliad er mwyn ymdrin â phryderon rheoleiddio difrifol

Sefydlwyd 1,644 (2015-16: 1,327) o achosion cydymffurfiad gweithredol gennym a chafodd 1,499 (2015-16: 1,309) eu dirwyn i ben.

Mae ein hachosion yn aml yn gymhleth ac mae'r achosion mwyaf difrifol yn golygu gweithio gydag asiantaethau eraill. Arhosodd y defnydd o bwerau cydymffurfiad fwy neu lai yr un fath â'r llynedd - 1,099 o weithiau (2015-16: 1,073).

Un rhan bwysig o'n swyddogaeth cydymffurfiad yw gwarchod asedau elusennol. Gwnaed dau orchymyn breinio gennym eleni i gymell tir i gael ei drosglwyddo i enw'r Ceidwad Swyddogol, a defnyddiwyd ein pwerau 44 o weithiau i atal eiddo rhag cael ei waredu dros dro neu i gyfyngu ar y trafodion y gall elusennau eu gwneud.

Mae'r Comisiwn yn parhau i gymryd camau yn erbyn unigolion sy'n gyfrifol am gamreolaeth neu gamymddwyn difrifol mewn elusennau. Rhoddwyd cyfarwyddiadau cyfreithiol gennym i gael eu cymryd gan elusennau 90 o weithiau gan gynnwys cyfarwyddiadau i gyflwyno cyfrifon a oedd ar goll neu ddatganiadau i ddatrys diffygion yn eu rheolaethau a'u gweithdrefnau ariannol. Penodwyd saith o reolwyr dros dro newydd gennym - cam dros dro a rhagweithiol i reoli elusen pa un a fu camymddwyn neu gamreolaeth neu lle mae angen gwarchod ei eiddo. Daeth hyn â chyfanswm y rheolwyr dros dro a oedd yn rheoli elusennau ar 31 Mawrth 2017 i 13.

Mae'r Comisiwn yn dryloyw ynghylch ei ymyriadau mewn elusennau, yn enwedig pan fydd yn defnyddio ei bwerau cyfreithiol. Rydym yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gydag elusennau eraill i'w helpu i ymdrin â sefyllfaoedd anodd a sicrhau nad ydynt yn gwneud yr un camgymeriadau, ac i sicrhau eu bod yn atebol i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.

Cyhoeddwyd y canlynol gennym eleni:

- 67 o ddatganiadau o ganlyniadau ein hymchwiliadau (2015-16: 35)
- 16 o adroddiadau rheoleiddio
- ein cyhoeddiad Mynd i'r Afael â Cham-drin a Chamreolaeth blynyddol

Derbyniodd y cyhoeddiadau hyn sylw sylweddol gan elusennau a'r wasg genedlaethol ac mae elusennau'n aml yn defnyddio'r adroddiadau hyn yn eu cyfarfodydd ymddiriedolwyr a'u sesiynau hyfforddi.

**Hysbysu am ddigwyddiadau difrifol**

Roedd mân gynnydd i nifer y digwyddiadau difrifol a adroddwyd i ni gan elusennau eleni gyda 2,181 o ddigwyddiadau difrifol yn 2016-17 (2015-16: 2,117).

**Chwythu'r Chwiban i'r Comisiwn**

Ymdriniwyd â 142 o achosion a oedd yn peri pryder gennym eleni (2015-16: 143) – daeth 17 gan archwilwyr, 37 gan archwilwyr annibynnol ac 88 gan gyflogeion elusennau.

**Gweithredu rhagweithiol**

**Monitro**

Cafodd y ffordd yr oeddem yn monitro elusennau yn rhagweithiol ac yn nodi cam-drin a diffyg cydymffurfiad ei wella gennym, wrth i ni gynnal mwy o ymweliadau arolygu a chydymffurfiad unigol.

Cafodd elusennau a oedd newydd eu cofrestru eu monitro gennym yn ymarferol pan roedd gennym bryderon efallai na fyddent yn gweithredu fel y nodwyd ar adeg eu ceisiadau, er enghraifft pryderon am lefelau isel o weithgarwch elusennol neu am unigolion a oedd yn gysylltiedig â'r elusen. Ymgysylltwyd gennym hefyd ag elusennau a oedd newydd eu cofrestru a oedd yn gweithredu mewn ardaloedd uchel eu risg yn rhyngwladol a'r rheini a ymrwymodd i gyflawni camau penodol pan gawsant eu cofrestru. Cafodd 47 o elusennau eu monitro gennym yn rhan o'n rhaglen fonitro ôl-gofrestru ragweithiol.

Sefydlwyd 503 o achosion monitro gennym yn 2016-17 a chafodd 586 o achosion eu dirwyn i ben (2015-16: 462 a 426 yn eu trefn). Cynhaliwyd 113 o ymweliadau arolygu a chydymffurfiad rhagweithiol gennym (2015-16: 106). Cofnodwyd effaith fuddiol gennym yn 95.3% o'n achosion monitro.

Arweiniodd yr achosion hyn at gyflwyno 42 o gynlluniau gweithredu a 39 o elusennau yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr ar y sail nad oeddent yn bodoli neu'n gweithredu mwyach. Arweiniasant hefyd at un rhybudd o fwriad i gyflwyno rhybudd swyddogol i ymddiriedolwr.

Gwnaed gwaith monitro dilynol gennym ar 227 o elusennau y bu'n ofynnol iddynt gymryd camau penodol, i wirio bod y camau hynny wedi eu cymryd.

Roedd gwaith dilynol arall yn cynnwys:

- ymgysylltu â Sefydliadau Corfforedig Elusennol a gofrestrwyd yn ddiweddar a oedd wedi datgan dim incwm a gwariant ar eu datganiad blynyddol i wirio bod hyn yn gywir
- gweithredu ar atgyfeiriadau a datgeliadau gan reoleiddwyr eraill lle'r oedd pryderon am ddiffyg cydymffurfiad.

## Adolygiadau o gyfrifon elusennol

Yn ystod y flwyddyn, edrychodd ein tîm o arbenigwyr cyfrifyddu ar 894 (2015-16: 986) o setiau o gyfrifon yn cynnwys 607 (2015-16: 699) o elusennau. Yn rhan o'n gweithgareddau monitro rhagweithiol, adolygwyd 380 (2015-16: 377) o gyfrifon gennym yn rhan o adolygiadau ar sail thema ar gyfer materion penodol a 514 (2015-16: 609) o gyfrifon i fwrw ymlaen â'n gwaith achos rheoleiddio.

Gan ddefnyddio ein pwerau gwybodaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i elusennau gynhyrchu gwybodaeth a dogfennau, cynhaliwyd 109 set o ddadansoddiadau manwl o wybodaeth ariannol gennym i gynorthwyo i nodi trafodion amheus neu anarferol. Wedi ein hysbysu gan y dadansoddiadau hynny a'n hadolygiad o adroddiadau a chyfrifon, cynhaliwyd 80 o ymweliadau llyfrau-a-chofnodion ag elusennau gennym wedyn.

## Anhawster ariannol

Amlygodd y ffaith i nifer o elusennau gau yn ystod y flwyddyn y pwysigrwydd i ymddiriedolwyr reoli anawsterau ariannol. Mae diddordeb y cyhoedd mewn elusennau (yn enwedig elusennau uchel eu proffil) sy'n methu oherwydd anawsterau ariannol yn cael effaith negyddol fawr ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau.

Gwnaethpwyd y canlynol gan y Comisiwn mewn ymateb:

- llunio adroddiad ar ei waith craffu ac adolygu rhagweithiol ar wahanol gyfrifon elusennol sy'n dangos y gallent fod mewn anawsterau ariannol
- cynnwys y thema o elusennau mewn perygl o anhawster ariannol yn ei raglen o ymweliadau monitro ac arolygu
- cychwyn adolygiad o'i ganllawiau ariannol craidd.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys manylion gwersi ehangach i ymddiriedolwyr. Roeddent yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd i ni a chanfyddiadau'r archwilwyr o elusennau a oedd yn wynebu anhawster ariannol. Tynnodd yr adroddiadau sylw at yr heriau y mae'r amgylchedd ariannol sydd ohoni yn eu hachosi i elusennau a rhai o'r strategaethau llwyddiannus i'w mabwysiadu. Roeddent yn pwysleisio'r swyddogaeth hanfodol sydd gan ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr elusennau o ran rheoli sefyllfaoedd o anhawster ariannol a pha mor hollbwysig yw hi bod ymddiriedolwyr yn mynd i'r afael ag anawsterau ariannol yn effeithiol, yn gweithredu er budd pennaf yr elusen, yn rheoli adnoddau'r elusen yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr elusen yn atebol.

Daethpwyd i'r casgliad gennym mai'r elusennau hynny sy'n gallu nodi pwysau a risgiau yn gynnar sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â nhw. Rydym yn disgwyl i ymddiriedolwyr gymryd unrhyw bryderon a fynegir gan archwilydd ariannol neu archwilydd annibynnol eu helusen o ddifrif, a chymryd camau priodol mewn ymateb.

## Ymgysylltu'n effeithiol a rhannu data

Rydym yn gweithio gyda'r heddlu, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr ac ar draws llywodraeth. Rydym wedi datblygu a chynnal perthynas gadarn gyda'r partneriaid a'r rhanddeiliaid hyn. Mae'r trefniadau hyn yn aml wedi eu fframio gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth. Roedd gennym 40 o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth yn 2016-17, a chwe chytundeb newydd neu a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian newydd.

Ehangwyd ein perthynas weithredol gyda'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol gan weithio ar y cyd i awgrymu mentrau newydd i gefnogi a chryfhau sgiliau a galluoedd elusennau bach a chanolig eu maint o ran rheoli prosiectau dyngarol a datblygu dramor. Bydd y

bartneriaeth yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau wedi eu teilwra i gynyddu galluoedd elusennau bach a chanolig eu maint.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn darparu fframwaith cyfreithiol i alluogi'r Comisiwn i ddatgelu a derbyn gwybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus eraill. Cynyddodd yr achosion o gyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau eraill i 2,733 o weithiau, (2015-16: 2,332) a chynyddodd y nifer o weithiau i wneud cais am wybodaeth a'i derbyn 31% i 1,212 (2015-16: 922).

**Gweithio ar y cyd gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Rheoleiddiwr Codi Arian**

**Pam y rhoddasom sylw i hyn:**

Ym mis Rhagfyr 2016, cyflwynodd y Comisiynydd Gwybodaeth hysbysiadau cost ariannol i ddwy elusen am ddiffyg cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data. Roedd y diffygion difrifol hyn am arferion yr oedd rhai elusennau yn eu hystyried yn 'arfer cyffredin', yr oedd angen iddynt ddod i ben ar unwaith. Cyflwynwyd 11 hysbysiad arall wedyn ddechrau 2017.

**Y camau a gymerwyd gennym:**

Cysylltwyd â'r holl elusennau perthnasol, i sicrhau bod yr ymddiriedolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a bod yr holl arferion a nodwyd fel diffyg cydymffurfiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dod i ben.

Hefyd, gweithiwyd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Rheoleiddiwr Codi Arian i sicrhau bod dealltwriaeth eang o'r pryderon yn y sector.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd rhybudd ar y cyd gennym i'r sector ynghyd â'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn atgoffa ymddiriedolwyr bod rhaid iddynt, yn ogystal â bodloni gofynion cyfraith elusennau, sicrhau bod systemau ar waith i nodi a chydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau diogelu data a rheoliadau sy'n berthnasol i'w gweithgareddau.

**Effaith ein gwaith ar y cyd â'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Rheoleiddiwr Codi Arian:**

Cynhaliodd y tri rheoleiddiwr gynhadledd ar y cyd ym Manceinion ar gyfer 400 o bobl ym mis Chwefror 2017. Nod y Gynhadledd Codi Arian a Chydymffurfiad Rheoliadol oedd helpu elusennau a grwpiau codi arian eraill i gydymffurfio â'r gyfraith. Cyflwynodd y gynhadledd y gofynion rheoleiddio a'r disgwyliadau i gyrff codi arian a'u byrddau o dan ddeddfwriaeth diogelu data'r presennol a'r dyfodol, ac esboniodd gylchoedd gwaith unigol y tri rheoleiddiwr.

## Annog y cyhoedd i roi yn fwy diogel

Yn rhan o'n hymrwymiad i ddiogelu rhoddion i elusennau a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn elusennau, parhawyd i hyrwyddo pwysigrwydd rhoi i elusennau cofrestredig. Cynhaliwyd pum ymgyrch gennym eleni i annog y cyhoedd i roi'n fwy diogel: yn ystod cyfnodau Eid, y Nadolig, Ramadan, ac yn ystod yr argyfyngau ffoaduriaid a daeargryn Nepal, gan gysylltu'r ymgyrchoedd hyn â'n canllawiau rhoi'n fwy diogel.

Ar ddechrau Ramadan er enghraifft, cyhoeddwyd '10 cyngor gorau' ar roi'n ddiogel i elusennau, a oedd yn cynnwys dyfyniad gan Faer Llundain a chan y Fforwm Elusennau Mwslimaidd. Gweithiwyd hefyd gyda'r Islam Channel a sefydliad partner, defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol, a chynhaliwyd 46 o gyfweliadau radio i gynghori'r cyhoedd ar sut i wirio a yw elusen wedi ei chofrestru. Cyhoeddwyd erthygl blog gennym am rai o'r prosiectau cadarnhaol a ddarparwyd o ganlyniad i roi i elusennau cofrestredig yn ystod Ramadan a arweiniodd at dros 21,000 olygon, a chafodd sylw mewn nifer o gyhoeddiadau cenedlaethol.

Yn y cyfnod cyn y Nadolig, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gennym ar y cyd â'r Rheoleiddiwr Codi Arian i godi ymwybyddiaeth o'r angen i roi yn fwy diogel, pa un a thrwy gasgliadau stryd neu ar-lein. Rhoddodd nifer o gwmnïau

print a darlledu lleol sylw i'r stori a chyfwelwyd ein Cyfarwyddwr Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi ar y BBC One Show ym mis Tachwedd ar gyfer eitem a oedd hefyd yn dangos i'r cyhoedd sut i ddefnyddio ein cofrestr.

Atgoffwyd y cyhoedd gennym hefyd i roi i elusennau cofrestredig yn ystod cyfnodau eraill o roi cynyddol, fel lansiad Apêl Argyfwng Dwyrain Affrica gan y Pwyllgor Argyfyngau, neu pan gawsom ein hysbysu am fygythiad penodol fel apêl elusen ffug ar-lein, neu'n dilyn euogfarn cyfarwyddwr angladdau am dwyll a arweiniodd at golled o dros £14,000 i elusen.

## Blaenoriaeth 2: Galluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol

Roedd 951,533 o swyddi ymddiriedolwyr mewn elusennau a reoleiddir gennym ni yng Nghymru a Lloegr ar 31 Mawrth 2017 a bu newid ymddiriedolwr mewn nifer sylweddol o swyddi y llynedd. Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr nad ydynt yn cael eu talu, ac mae llawer yn elwa o'n cyfarwyddyd, ein cymorth a'n gwybodaeth arbenigol.

Mae'n rhan hanfodol o'n swyddogaeth reoleiddio, ac yn flaenoriaeth strategol, i alluogi ymddiriedolwyr i redeg eu helusennau yn effeithiol er mwyn sicrhau cymaint o ddefnydd o adnoddau elusennol â phosibl. Ond rydym yn gwneud hynny â chyllideb gyfyngedig, felly anaml y gallwn gynnig cyngor un i un.

Diwygiwyd ein Datganiad o Ddull Rheoleiddio ym mis Ionawr 2017 i bwysleisio pwysigrwydd ein gwaith galluogi.

Mae'r gwaith hwn mewn pedwar prif faes:

**Ymgysylltu â chyfathrebu â'r cyhoedd:** ymgysylltu ag ymddiriedolwyr i'w galluogi i gael mynediad at yr offerynnau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni eu swyddogaethau a bodloni gofynion cydymffurfiad.

**Gwasanaethau Elusennau:** yn ei gwneud yn haws ac yn fwy effeithlon i ymddiriedolwyr weithio gyda ni pan fydd angen caniatâd neu gymorth arall arnynt, trwy wasanaethau digidol sy'n well ac yn fwy ystyriol o ddefnyddwyr.

**Darparu canllawiau eglur**: darparu canllawiau rheoleiddio eglur, hygyrch, â phwyslais penodol i'w gwneud yn eglur i ymddiriedolwyr yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio ag arferion cyfreithiol a rheoliadol.

**Gweithio ar y cyd â chyrff eraill:** sicrhau bod gennym gymaint â phosibl o gydweithrediad â thrydydd partïon, fel arianwyr elusennau, cynghorwyr proffesiynol a chyrff ambarél er mwyn helpu i wella effeithiolrwydd ymddiriedolwyr.

Mae ein gwaith galluogi yn cynnwys pob rhan o'r busnes sy'n ymgysylltu ag elusennau.

## Ymgysylltu â chyfathrebu â'r cyhoedd

### Cyfarfodydd cyhoeddus

Eleni, parhawyd i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr, ac fe'u cynhaliwyd yn Llandrindod, Efrog a Llundain. Roedd cyfanswm o fwy na 450 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y digwyddiadau hyn ac roeddent yn canolbwyntio ar gynorthwyo ymddiriedolwyr i ddeall eu dyletswyddau.

Roeddem yn falch iawn o groesawu Prif Weinidog y DU, y Gwir Anrhydeddus Theresa May, i gyflwyno Darlith Flynyddol y Comisiwn Elusennau yn y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain ym mis Ionawr. Canmolwyd gwaith y Comisiwn gan y Prif Weinidog, a'r swyddogaeth bwysig y mae'r sector yn ei chyflawni yn ein cymdeithas. Clywodd y rhai a

oedd yn bresennol gan y tîm gweithredol hefyd, a fyfyriodd ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud â'n cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf.

Yn ein gwaith allgymorth â phwyslais penodol gydag elusennau eleni, cyrhaeddwyd dros 692 o elusennau ac 1,180 o gynrychiolwyr elusennau, a'r rheini'n elusennau bach a chanolig eu maint yn bennaf. Llwyddodd tîm Allgymorth y Comisiwn i gynnal neu siarad mewn 44 digwyddiad a chyfarfodydd eraill gan gyfarfod dros 1,000 o gynrychiolwyr o 692 o wahanol elusennau, lle'r oeddem yn gallu darparu cyngor rheoleiddio i 783 o gynrychiolwyr ar ddyletswyddau craidd ymddiriedolwyr, i 391 ar reoli siaradwyr a chynnwys ar-lein, i 500 ar faterion diogelu ac i 298 ar faterion codi arian.

Hefyd, gwnaeth cyfrifyddion y Comisiwn gyflwyniadau mewn 20 digwyddiad i 1,549 o gynrychiolwyr i gefnogi gwelliant y safonau cyfrifyddu ac adrodd a llywodraethu ariannol.

### Hybu dysgu ehangach

Er mwyn hybu dysgu ehangach, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o'r enw 'Mynd i'r Afael â Cham-drin a Chamreolaeth'. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg blynyddol o waith achos cydymffurfiad y Comisiwn, ac yn nodi sut yr ydym yn helpu i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu elusennau a defnyddio ein pwerau rheoleiddio i fynd i'r afael â cham-drin mewn elusennau. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos ein gwaith rhagweithiol, gan gynnwys ymweliadau ac arolygiadau.

Mae diben yr adroddiad yn ddeublyg: i esbonio'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein nod strategol o hybu cydymffurfiad mewn elusennau, ac i helpu ymddiriedolwyr i ddysgu'r gwersi o'n gwaith achos er mwyn eu helpu i atal problemau tebyg rhag codi yn eu helusennau nhw.

Roedd adroddiad eleni yn canolbwyntio ar lywodraethu gwael, sy'n ganolog i lawer o'n gwaith achos, gan gynnwys achosion uchel eu proffil yn ymwneud â chodi arian a cham-drin ariannol. Canolbwyntiodd ar bwysigrwydd bwrdd ymddiriedolwyr cryf mewn elusen i ddarparu trosolwg priodol, yn ogystal â gweledigaeth strategol.

Parhawyd hefyd i gyhoeddi adroddiadau achos unigol ar amrywiaeth o'n gwaith achos cydymffurfiad a chaniatâd. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan ac arweiniodd sawl un at sylw yn y cyfryngau prif ffrwd.

> "Mae'r gwaith y mae William, Paula a'u tîm yn y Comisiwn Elusennau yn ei wneud mor bwysig. Oherwydd mae'r diwygiadau y maent yn eu harwain yn cryfhau'r sector – ac ynghyd â'r Rheoleiddiwr Codi Arian newydd – yn sicrhau hyder y cyhoedd yn ein helusennau a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i helpu i ymateb i rai o heriau cymdeithasol mwyaf ein hoes."
>
> **Prif Weinidog y DU, y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS**

### Cyfathrebu digidol

Rydym yn cydnabod bod technoleg ddigidol yn caniatáu ymgysylltu cost-effeithiol a phrydlon gydag ymddiriedolwyr, ac mae defnyddio sianeli cyfathrebu newydd fel cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn.

Rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheoleiddio ar ein tudalennau Twitter a LinkedIn, fel hysbysiadau am ganllawiau newydd a phresennol, nodiadau atgoffa am derfynau amser ffeilio cyfrifon allweddol, a chyngor i'r cyhoedd ar sut i roi'n ddiogel. Mae gennym bron i 40,000 o ddilynwyr ar ein tudalen Twitter gorfforaethol, sy'n gyfartaledd o tua 120 o ddilynwyr newydd yr wythnos. Mae gweminarau wedi ymgysylltu ag ymddiriedolwyr ar ddyletswyddau allweddol am y tro cyntaf ac rydym yn cyhoeddi blog GOV.UK, i ddarparu arweinyddiaeth syniadau a gwybodaeth allweddol i'r sector. Cyhoeddwyd tua 20 o flogiau

gennym yn ystod y flwyddyn a gafodd 5,000-6,000 o olygon y mis. Yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo gwybodaeth, newyddion a blogiau ar y wefan, anfonir ein cylchlythyr tri misol, 'Newyddion y Comisiwn Elusennau', at yr ymddiriedolwyr yn ein cronfa ddata.

Yn rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Dwyll ac mewn cydweithrediad ag aelodau o Grŵp Gwrth-dwyll y Sector Elusennau, lansiwyd gwefan newydd gennym yn benodol i helpu elusennau fynd i'r afael â thwyll. Mae'r wefan - www.charitiesagainstfraud.org.uk- yn cynnig pwynt cyfeirio cychwynnol i ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr ynghylch mynd i'r afael â thwyll ac mae'n cynnwys canllawiau, cyngor da ac astudiaethau achos.

**Ymgyrch Wythnos Ymddiriedolwyr**

Cynhaliwyd y seithfed Wythnos Ymddiriedolwyr flynyddol gennym ym mis Tachwedd 2016. Cefnogwyd yr ymgyrch gan gynghrair o elusennau, sefydliadau ambarél, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr a chanolbwyntiodd ar elusennau cryfach trwy arweinyddiaeth dda. Defnyddiwyd yr wythnos i ddathlu ac amlygu swyddogaeth hanfodol a gwerth ymddiriedolaeth, ac i annog unrhyw un â diddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth.

Roedd yr wythnos hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymddiriedolwyr presennol o'r llwybrau cymorth a'r adnoddau hyfforddi sydd ar gael i'w helpu i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol. Cynhaliwyd bron i 100 o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag Wythnos Ymddiriedolwyr ledled y DU; rhestrwyd y rhain ar wefan Wythnos Ymddiriedolwyr. Cynhaliwyd ein gweminar fyw gyntaf hefyd, ar gyfer ymddiriedolwyr penodol nad oeddent yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiad. Canolbwyntiodd y gweminar ar y pwyntiau allweddol y mae angen i bob ymddiriedolwr eu gwybod.

Cafodd Wythnos Ymddiriedolwyr amrywiaeth eang o sylw yn y wasg genedlaethol, leol a sector elusennau, yn ogystal â chefnogaeth gan Weinidog a Seneddwyr blaenllaw. Anfonwyd sawl mil o drydariadau gan ddefnyddio'r hashnod #TrusteesWeek, gan helpu i sicrhau bod yr hashnod yn trendio yn y DU.

**Gwasanaethau elusennau**

Mae ein swyddogaethau Gwasanaethau Elusennau yn gyfrifol am wasanaethau digidol sy'n ymdrin â chwsmeriaid ac am roi caniatâd.

Cyflwynodd Rhaglen Weddnewid a strategaeth ddigidol y Comisiwn y rhaglen o waith i wella'r ddarpariaeth ddigidol o'n gwasanaethau. Mae sefydlu teithiau cwsmeriaid da sy'n galluogi elusennau i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, a chaniatáu i ymddiriedolwyr reoli diweddariadau beunyddiol eu hunain ar-lein yn ganolog i'n strategaeth.

Eleni, roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys y gwasanaeth ar-lein newydd Gwneud Cais i Gofrestru Elusen, sydd wedi helpu i leihau'n sylweddol yr amser cyfartalog a gymerir i gofrestru, gan sicrhau bod y broses yn dal i fod yn gadarn.

Mae nifer y ceisiadau i gofrestru fel elusen wedi bod yn cynyddu ers tair blynedd, ac roedd 2% yn uwch yn 2016-17 nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd hefyd i nifer y ceisiadau i gofrestru Sefydliadau Corfforedig Elusennol, i fyny 9% i 4891 (2015-16: 4,509).

Er gwaethaf y cynnydd sylweddol hwn, cyflymwyd y broses gofrestru gennym. Gweithiwyd hefyd i sicrhau bod y broses yn dal i fod yn gadarn. Roedd amserlenni ceisiadau llwybr carlam i lawr i 3 diwrnod eleni, tra bod amserlenni cofrestriadau isel eu risg wedi gostwng o 32 diwrnod i 23 diwrnod a'r amserlen gyfartalog ar gyfer pob cais cofrestru (gan gynnwys uchel eu risg) wedi gostwng i 55 diwrnod o 58 diwrnod y flwyddyn cynt.

Cafwyd 8,368 o geisiadau yn 2016-17 (2015-16: 8,198), a chofrestrwyd 6,045 ohonynt (2015-16: 5,169). Mae hyn yn golygu na arweiniodd 2,323 o geisiadau (2015-16: 2,644) at gofrestriad ar ôl i ni ofyn am ragor o wybodaeth. Gwrthodwyd 131 o geisiadau yn ffurfiol (2015-16: 90).

Edrychwyd ar fanylion elusennau ar ein cofrestr ar-lein 13.1 miliwn o weithiau (2015-16: 8.1 miliwn). Mae hyn yn cynnwys golygon trwy ein cofrestr bresennol a'r porth beta sy'n cael ei ddatblygu, gan amlygu cynnydd sylweddol a gwerth ein cofrestr.

Mae'r cam nesaf o ddarparu gwasanaethau ar-lein newydd ar y trywydd cywir i gael ei gyflawni yn 2017, gan gynnwys:

- Newid enw elusen – gwasanaeth digidol wedi ei awtomeiddio'n llawn o un pen i'r llall ar gyfer newid enw elusen. Bydd y gwasanaeth yn galluogi elusennau i ddiwygio eu prif enw ac ychwanegu neu gael gwared ar enw gweithio.
- Diwygiadau i elusennau – gwasanaeth digidol wedi ei awtomeiddio ar gyfer ffeilio diwygiadau a newidiadau heb eu rheoleiddio.

Un o'r manteision o awtomeiddio gwasanaethau isel eu risg fel y rhain yw y gallwn adleoli staff i waith mwy strategol a risg uwch gan ganolbwyntio ar elusennau y mae angen craffu mwy arnynt. Bydd hefyd yn gwella ansawdd data ar elusennau at ein defnydd ni a'r cyhoedd.

Byddwn hefyd yn galluogi ymddiriedolwyr i weithredu elusennau'n effeithiol ac yn effeithlon trwy ddatblygu a darparu 'porth elusennau'. Bydd hyn yn gwella mynediad at ganllawiau, cyfathrebiadau wedi'u targedu a gwasanaethau digidol hunan-wasanaethu wedi eu mesur yn ôl defnydd a sgoriau bodlonrwydd cwsmeriaid. Bydd y gwasanaethau digidol newydd yn cynnwys proses fewngofnodi newydd i sicrhau diogelwch gwell a lleihau twyll a gwasanaeth 'digidol â chymorth' i helpu pobl i gael mynediad at ein gwasanaethau.

### Caniatâd

Gwnaed y canlynol gennym eleni:

- Sefydlwyd 1,670 o achosion caniatâd (2015-16: 1,582)
- Cafodd 1,523 ei dirwyn i ben (2915-16 1,617)
- Goruchwyliwyd incwm o £9.8 biliwn

Rydym wedi symleiddio'r prosesau ar gyfer gofyn am ganiatâd a fydd yn cyflymu gwaith rheoli achos. Mae rhai enghreifftiau o ganiatâd a roddwyd yn cynnwys:

- Galluogi elusennau i newid eu dibenion a diwygio dogfennau llywodraethu
- Pan nad oes unrhyw rym arall ar gael i elusen, rydym yn creu cynlluniau i wneud y diwygiad a ddymunir. Gwnaed 87 o gynlluniau cy-près gennym yn ystod y flwyddyn i newid diben elusen, a ganiataodd i gyllid gael ei gymhwyso at ddibenion elusennol a oedd yn debyg i'r dibenion gwreiddiol. Gwnaed 48 o gynlluniau gweinyddol gennym hefyd, yn diwygio darpariaethau dogfen lywodraethu elusen
- Gwneud gorchmynion i awdurdodi amrywiaeth o drafodion na fyddent yn bosibl fel arall. Roedd y rhain yn cynnwys cydsyniadau i warediadau tir am lai na'i werth neu i unigolyn cysylltiedig, neu alluogi ymddiriedolwr i gael ei dalu o dan amgylchiadau arbennig. Awdurdodwyd 20 o daliadau gennym hefyd nad oedd yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar elusennau i'w gwneud, ond roedd yr ymddiriedolwyr yn teimlo bod rhwymedigaeth foesol arnynt i wneud hynny.

Gall ein penderfyniadau i roi caniatâd i elusennau fod yn ddadleuol, a gall elusennau wynebu gwrthwynebiadau gan y rheini sy'n gwrthwynebu eu cynlluniau. Gellir herio'r rhan fwyaf o'n penderfyniadau o ran caniatâd yn y Tribiwnlys, a wynebwyd tair apêl gennym eleni yn erbyn ein penderfyniadau i roi caniatâd i elusennau. Amddiffynnwyd yr holl apeliadau hyn gennym yn llwyddiannus.

**Darparu canllawiau eglur i ymddiriedolwyr**

Er mwyn i elusen ffynnu a chyflawni ei nodau elusennol, mae'n rhaid bod ganddi drefniadau da ar gyfer ei llywodraethiad a'i rheolaeth ariannol. Hefyd, mae'n rhaid i'w ymddiriedolwyr ddeall eu dyletswyddau, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gefnogi ymddiriedolwyr trwy ddiweddaru ein canllawiau.

Er mwyn helpu ymddiriedolwyr i ddeall eu cyfrifoldebau ariannol sylfaenol, cyhoeddodd y Comisiwn fersiwn newydd o ddarn allweddol o gyfarwyddyd 'Cyllid elusennau: yr hanfodion i ymddiriedolwyr' (CC25). Derbyniodd y canllawiau hyn, sy'n cynorthwyo ymddiriedolwyr i reoli adnoddau elusennau gan gynnwys rheolaethau ariannol, staff a gwirfoddolwyr, 13,045 o olygon ar-lein.

**Codi arian**

O ystyried y diddordeb parhaus mewn materion cysylltiedig â chodi arian a gynhyrchwyd eleni, diweddarwyd ein canllawiau CC20 'Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr'. Nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am reoleiddio arfer codi arian, ond rydym yn gwybod bod arferion codi arian gwael yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau ac rydym yn dwyn ymddiriedolwyr i gyfrif am eu trosolwg o waith codi arian eu helusennau.

Mae CC20 yn ei gwneud yn eglur i ymddiriedolwyr mai nhw sy'n atebol yn y pen draw. Mae'n nodi chwe egwyddor eglur y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr eu dilyn:

- Cynllunio'n effeithiol
- Goruchwylio eich codwyr arian
- Amddiffyn enw da ac asedau eraill yr elusen
- Cydymffurfio â chyfraith codi arian
- Dilyn safonau cydnabyddedig
- Bod yn agored ac yn atebol.

Cyhoeddwyd ein canllaw CC20 ar godi arian elusennau ar yr un pryd â diweddariad i restr wirio'r Comisiwn o 15 o gwestiynau y dylai ymddiriedolwyr eu hystyried i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau a diogelu asedau eu helusen, i nodi materion critigol ac i gryfhau ansawdd llywodraethiad yr elusen. Edrychwyd ar dudalennau'r canllawiau hyn 131,555 o weithiau, sy'n swm sylweddol, yn ystod y flwyddyn.

Caiff ymddiriedolwyr eu hwynebu'n aml â phenderfyniadau anodd gan gynnwys weithiau yr angen i ddwyn neu amddiffyn achosion cyfreithiol. Cyhoeddwyd canllawiau yn ystod y flwyddyn sy'n egluro'r materion y dylai ymddiriedolwyr eu hystyried yn ystod ymgyfreitha.

Mae'r Comisiwn yn hyrwyddo ei ganllawiau i ymddiriedolwyr a chynghorwyr ar y we yn ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys ei gyfrif Twitter, eitemau newyddion, cylchlythyrau, blogiau, cyflwyniadau, hysbysiadau e-bost ac, yn fwy diweddar, gweminarau.

**Ethical Property Foundation**

Gweithiodd y Comisiwn mewn partneriaeth â'r Ethical Property Foundation (EPF), ar ôl datblygu trefniant atgyfeirio i gynorthwyo elusennau gyda chyngor a gwybodaeth yn ymwneud â'u hystadau a'u cyfleusterau.

Rydym yn atgyfeirio elusennau i'r EPF trwy ei wefan a'i wasanaeth ffôn, ar gyfer cyngor ar dir ac eiddo. Gall EPF ddarparu cyngor am ddim ac atgyfeiriadau i bartneriaid proffesiynol mewn achosion mwy cymhleth ar gyfer cyngor a chymorth am brisiau gostyngedig.

Yn 2016-17, cynorthwyodd yr EPF 353 o achosion elusennau trwy weithdai a chymorth wedi'i deilwra (261 yn 2015), a derbyniodd 122 o elusennau eraill hyfforddiant. O ganlyniad i'r mentrau hyn, llwyddodd y sefydliadau i arbed swm amcangyfrifedig o £837,000. Cafodd o leiaf pedwar eu hachub rhag gorfod cau ac ni ddioddefodd chwech arall golled gwasanaeth o ganlyniad i ymyrraeth.

**Y Prosiect Ymwybyddiaeth Ymddiriedolwyr**

Sefydlwyd prosiect ymchwil Ymwybyddiaeth Ymddiriedolwyr gan y Comisiwn ym mis Medi 2016. Bydd y prosiect, sydd wedi ei ariannu gan y Swyddfa Cymdeithas Sifil mewn partneriaeth â Chanolfan Cass dros Effeithiolrwydd Elusennau (CASS CCE), Ymddiriedolaeth Cranfield a'r Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Cenedlaethol, yn darparu:

- dadansoddiad o lefelau presennol ymwybyddiaeth ymddiriedolwyr o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau
- dadansoddiad o sefyllfa bresennol ymddiriedolaeth elusennol yng Nghymru a Lloegr
- deall yr adnoddau o gymorth i ymddiriedolwyr a'r lefelau sy'n manteisio ar y cymorth hwnnw
- llinell sylfaen ar gyfer astudiaeth hydredol bosibl yn y dyfodol.

Yn y pen draw, bydd hyn yn cynnig gwell dealltwriaeth i'r sector o ddealltwriaeth ymddiriedolwyr o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ac yn galluogi'r Comisiwn i gyfeirio ei gymorth ymhellach a theilwra a chyfathrebu canllawiau yn well i ddarparu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ymddiriedolwyr gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2017.

## Gweithio ar y cyd ag eraill

Rydym yn parhau i weithio mewn cydweithrediad ag eraill, gan ganolbwyntio ar weithio ar y cyd, rhannu data ac ymgysylltu â'r sector.

Llwyddodd y Comisiwn i gynnal neu siarad mewn bron i 100 o ddigwyddiadau yn 2016-17, gan gyrraedd miloedd o gynrychiolwyr elusennau o bob cwr o Gymru a Lloegr. Trafododd y digwyddiadau amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys: llywodraethu da; dyletswyddau ymddiriedolwyr; rheolaeth ariannol; diwydrwydd dyledus a monitro; rheoli digwyddiadau, siaradwyr a chyhoeddiadau fel elusennau ac anfon arian yn rhyngwladol. Gweithiodd y Comisiwn mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau eraill mewn digwyddiadau, gan gynnwys CThEM a nifer o grwpiau ambarél i hyrwyddo ac esbonio rhodd cymorth.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar y cyd â Chymdeithas y Cadeiryddion hefyd, gan wahodd cadeiryddion elusennau i gyfarfod a thrafod materion cyfredol a deall sut y gallwn barhau i'w cynorthwyo yn eu swyddogaethau.

# Blaenoriaeth 3: Annog elusennau i fod yn fwy tryloyw ac atebol

### Y gofrestr elusennau

Mae ein cofrestr elusennau yn allweddol i atebolrwydd a thryloywder. Mae darparu gwybodaeth gywir a chyfredol i'r cyhoedd am elusennau cofrestredig, gan gynnwys gwybodaeth am Ddatganiadau Blynyddol a chyfrifon, yn ein helpu i roi sicrwydd a hyder bod yr elusennau y maent yn eu cefnogi yn gweithredu gydag unplygrwydd, yn gwneud defnydd effeithiol o'u hadnoddau ac yn cael eu rheoli'n dda.

> Roedd 167,063 o elusennau ar y gofrestr ar 31 Mawrth 2017: cofrestrwyd 6,045 o elusennau yn ystod y flwyddyn, ac roedd 3,684 ohonynt yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol. Tynnwyd 4,556 o elusennau oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn. O gyfanswm yr elusennau a gofrestrwyd, datganodd 7,151 incwm o fwy nag £1 filiwn ac roedd gan 86,103 incwm o lai na £25,000.

Rydym yn gwarchod ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau trwy ganiatáu cofrestriad elusennol dim ond i'r sefydliadau hynny sy'n pasio'r profion cyfreithiol ar gyfer elusen yn briodol.

Ar y lefel strategol, cychwynnwyd rhaglen dwy flynedd gennym, sy'n cynnwys:

- adolygiad o fathau penodol o elusennau ar y gofrestr
- adolygiad parhaus o'r disgrifiadau o ddibenion yn Neddf Elusennau 2011
- adolygiad o'r holl ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar statws elusennol a materion cysylltiedig.

Eleni, ystyriodd ein hadolygiad o fathau o elusennau ar gofrestriad elusennau a sefydlwyd i hybu iechyd trwy ddarparu meddygaeth ategol ac amgen. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad cyfreithiol a ffeithiol o'r sail ar gyfer derbyn y sefydliadau hyn fel elusennau ac ymgynghoriad llawn. Ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad, bydd unrhyw gasgliadau ac argymhellion sy'n deillio ohono yn cael eu rhoi ar waith ar y gofrestr.

> **Ymddiriedolaeth Elusennol 1 Click**
>
> Pam y rhoddasom sylw i'r mater: Roedd asedau'r sefydliad yn brin ac roedd wedi ymgymryd â gweithgarwch elusennol lefel isel iawn ers ei gofrestriad yn 2010. Nid oedd yn gallu cyflwyno cynllun realistig ar gyfer incwm neu weithgareddau elusennol yn y dyfodol. Roedd y sefydliad wedi gwneud cais am ryddhad ardrethi busnes, ac roedd yr awdurdod lleol wedi gwrthod hyn gan nad oedd y safle perthnasol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol.
>
> Y camau a gymerwyd gennym: Cawsom gyfarfod gyda'r ymddiriedolwyr a chraffu ar gyfrifon a chofnodion y sefydliad. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn gweithredu ac roeddem wedi ein rhwymo'n gyfreithiol i'w dynnu oddi ar y gofrestr.

### Cofrestrydd elusennau

Penodwyd Dirprwy Gofrestrydd gennym eleni, gan nodi pwyslais o'r newydd ar sicrhau bod y gofrestr elusennau yn gyfredol, yn gywir ac yn addas i'r diben. Mae'r swyddogaeth Cofrestrydd newydd yn darparu un pwynt canolog o awdurdod ac atebolrwydd i'r gofrestr a'i chynnwys i sicrhau bod data'r gofrestr yn addas i'r diben, yn gywir, yn onest ac yn ddiogel. Mae'r swyddogaeth hon yn cynnwys cyflawni swyddogaeth arweiniol yn y rhaglen datganiadau blynyddol, sy'n ffynhonnell allweddol ar gyfer data'r gofrestr.

Rydym wedi gwella cyflymder cael gwared ar sefydliadau nad ydynt yn elusennau i hybu ymddiriedaeth mewn elusennau ar y gofrestr ac mewn effeithiolrwydd rheoleiddio. Un

ffordd yr ydym wedi gwneud hyn yw trwy nodi a chysylltu ag elusennau nad ydynt yn bodloni eu rhwymedigaethau adrodd. Mae hyn wedi arwain at nodi elusennau nad ydynt yn bodoli mwyach yn gynt, ac yna eu tynnu oddi ar y gofrestr; tynnwyd 4,565 o elusennau oddi ar y gofrestr yn 2016-17 (2015-16: 4,442).

**Fresh Start Housing**

Pam y rhoddasom sylw i'r cais: Roedd adroddiadau yn y cyfryngau yn honni bod y sefydliad, a oedd yn helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety, yn gwneud atgyfeiriadau i asiantaeth gosod tai a oedd yn eiddo i un o'r ymddiriedolwyr, a dderbyniodd mwy na £5.5 miliwn mewn budd-daliadau tai. Roedd gennym bryderon efallai nad oedd y sefydliad wedi ei sefydlu at ddibenion cwbl elusennol, o ystyried amgylchiadau ei sefydliad a sut yr oedd wedi gweithredu.

Y camau a gymerwyd gennym: Ar ôl ymweld â'r gwasanaeth, cyfweld ymddiriedolwyr ac archwilio cyfrifon a chofnodion, canfuwyd gennym fod y sefydliad wedi bod yn defnyddio gwasanaethau un asiantaeth gosod tai a oedd yn eiddo i ymddiriedolwr a oedd wedi elwa'n sylweddol ers adeg ei sefydlu. Methodd yr ymddiriedolwyr â dangos eu bod wedi gwneud penderfyniadau annibynnol at ddibenion cwbl elusennol. Nid oedd unrhyw berthynas hyd braich neu wahaniad eglur rhwng y sefydliad a'r asiantaeth gosod tai, felly daethpwyd i'r casgliad nad oedd y sefydliad wedi ei sefydlu at ddibenion cwbl elusennol.

Effaith ein hymyrraeth: Tynnwyd yr elusen oddi ar y gofrestr.

## Datganiadau Blynyddol a chyfrifon

### Newidiadau i'r Datganiad Blynyddol eleni

Cychwynnwyd cynllun datblygu dwy flynedd uchelgeisiol gennym eleni ar gyfer cwblhau a chyflwyno Datganiad Blynyddol. Symleiddiwyd y broses ar gyfer tua 70,000 o'r elusennau lleiaf.

Bydd datblygiadau pellach yn golygu y bydd elusennau'n gallu diweddaru manylion eu helusennau a'u hymddiriedolwyr trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn lleihau nifer y cwestiynau ac yn 2018 byddwn yn cyflwyno cwestiynau sbardun fel bod elusennau yn cael cwestiynau sy'n berthnasol iddynt yn unig. Ymgynghorwyd yn eang ar ein cynlluniau ar gyfer newid yn 2016 ac roedd 90% o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynigion. Rydym hefyd yn gwella ein canllawiau ar sut i gwblhau'r Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd 85.2% o Ddatganiadau Blynyddol gennym erbyn y terfyn amser yn 2016-17 (87.5% yn 2015-16). Hefyd, derbyniwyd 81% o gyfrifon gennym erbyn y terfyn amser. Roedd hyn yn is na'r flwyddyn cynt yn rhannol oherwydd nifer y Sefydliadau Corfforedig Elusennol. Yn wahanol i fathau eraill o elusennau, mae'n rhaid i bob Sefydliad Corfforedig Elusennol gyflwyno cyfrifon, waeth beth fo'u hincwm. Rydym wedi parhau ein hymdrechion i annog elusennau i gyflwyno cyfrifon yn brydlon ac i hyrwyddo cyfrifon ac adroddiadau blynyddol gwell trwy ein gwaith monitro cyfrifon.

Rydym wedi gweithio gyda:

- Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OCSR) – i symleiddio'r fframwaith cyfrifyddu elusennau a sicrhau ei bod yn cadw'n gyfredol â newidiadau i Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU;
- y corff cyfrifyddu proffesiynol ACCA - i lunio canllawiau ar gyfer cwmnïau dielw rhyngwladol i (a) cymhwyso'r safon adrodd ariannol rhyngwladol ar gyfer endidau bach a chanolig eu maint a (b) datblygu arfer da o ran adrodd gan gwmnïau dielw i gynyddu atebolrwydd sefydliadau nad ydynt yn y DU sy'n derbyn cyllid elusennol

- y Financial Reporting Council – i gymryd cam cyntaf tuag at gyfrifon digidol trwy gyflwyno estyniad tascsonomeg elusennau ar y cyd
- Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon (CCNI) - ynghylch materion o arwyddocâd perthnasol sy'n adroddadwy gan archwilwyr ariannol ac archwilwyr
- y proffesiwn cyfrifyddu – i godi safonau gyda chanllawiau cyffredin.

Ymchwiliad dosbarth troseddwyr dwbl

Elusennau sydd wedi methu â chyflawni eu rhwymedigaethau i fodloni gofynion adrodd trwy fethu â chyflwyno eu dogfennau blynyddol ddwy neu fwy o weithiau yn ystod y pum mlynedd diwethaf yw troseddwyr dwbl.

Daeth 74 o elusennau yn rhan o'r ymchwiliad dosbarth yn ystod y flwyddyn; mae hyn yn mynd i'r afael yn benodol â throseddwyr dwbl sy'n methu â chydymffurfio ar ôl rhybuddion. Cymhellwyd yr holl elusennau a oedd yn rhan o'r ymchwiliad i wneud iawn am y methiant i gyflwyno'r dogfennau cyfrifyddu a oedd heb eu cyflwyno. Defnyddiwyd ein pwerau a chyflwynwyd 29 o orchmynion cynhyrchu i gael gafael ar wybodaeth ariannol i gynorthwyo ein hymchwiliadau i faterion ariannol elusennau a oedd yn rhan o'r ymchwiliad dosbarth.

O ganlyniad i'n hymchwiliad dosbarth, mae 35 o elusennau wedi gwneud iawn am eu methiant ac wedi cyflwyno'r dogfennau cyfrifyddu gofynnol a oedd heb eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol hon. O ganlyniad, mae £35.2 miliwn o gyllid elusennol yn weledol i'r cyhoedd ar ein cofrestr erbyn hyn.

Cadarnhaodd yr ymchwiliad dosbarth hefyd nad yw 18 o elusennau eraill yn gweithredu mwyach ac fe'u tynnwyd oddi ar y gofrestr elusennau.

**Hybu adroddiadau a chyfrifon o ansawdd gwell**

Defnyddiwyd cyfrifon elusennau i ganfod problemau a heriau sy'n wynebu'r sector yn rhagweithiol. Craffodd ein tîm o gyfrifwyr ar 894 set o gyfrifon ar gyfer 607 o elusennau (gwaith achos - 514 a thema/prosiect - 380) yn cynnwys incwm o £3.5 biliwn.

Nodwyd gennym o'n pedwar adroddiad ar ansawdd cyfrifon elusennau bod angen i gyfrifon elusennau bach wella fwyaf, a bod elusennau bach sy'n defnyddio archwilydd annibynnol, neu ein templedi adroddiadau a chyfrifon, yn cael canlyniadau gwell – hyd at 88% yn bodloni'r safon ansawdd sylfaenol. Adroddwyd gennym ar wariant elusennol isel a chostau llywodraethu uchel, gan amlygu bod y sector yn dal i baratoi cyfrifon â gormod o wallau ac esboniad annigonol o'u perfformiad. Mae ein canfyddiadau manwl ar gael ar GOV.UK

Canfuwyd gennym hefyd bod ansawdd cyfrifon yn gwella gyda maint yr elusen. Mae rhy ychydig o elusennau yn adrodd ar ba mor dda y maent yn gwasanaethu eu buddiolwyr. Mae llawer o'n hachosion ymchwiliad yn ymwneud â budd preifat. Nodwyd gennym hefyd mai dim ond 74% o'r elusennau hynny a oedd yn adrodd o dan ddatganiadau o'r arfer a argymhellir sy'n esbonio sut y dylai elusennau adrodd, oedd wedi cynnwys nodyn ar dâp ymddiriedolwyr, fel sy'n ofynnol o dan y datganiadau o'r arfer a argymhellir. Mae hwn yn faes y mae'r datganiadau o'r arfer a argymhellir newydd yn rhoi sylw iddo trwy nodi'n fwy eglur yr hyn y mae'n rhaid ei ddatgelu.

Roedd 50% o adroddiadau blynyddol elusennau y craffwyd arnynt yn dangos dealltwriaeth eglur o fudd i'r cyhoedd yn 2016-17 (42% yn 2015-16) ac roedd 75% o gyfrifon elusennau o ansawdd derbyniol (77% yn 2015-16).

Gwnaethpwyd gwaith dilynol gyda'r holl elusennau ar ddiffygion a nodwyd yn ein hadolygiad, gan roi cyngor a chyfarwyddyd neu ei gwneud yn ofynnol i ailgyflwyno.

Gweithiwyd gyda'r cyrff cyfrifyddu hefyd eleni i newid safonau archwilio ar gyfer y sector, ar ôl i elusen Keeping Kids Company fynd i'r wal. Argymhellodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol yn ei ganfyddiadau y dylid adolygu'r canllawiau ar adrodd gan archwilwyr i'r Comisiwn. Mae'n ddyletswydd ar archwilwyr i adrodd ar faterion o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn, ac ymgynghorwyd ar ganllawiau newydd gan weithio gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

Mae'r canllawiau a ddiweddarwyd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017 yn berthnasol ar draws y DU gyfan ac ymhlith y naw mater yr ydym yn disgwyl i ni gael ein hysbysu amdanynt yn brydlon mae'n ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr adrodd ar ansicrwydd o bryder parhaus. Gyda chymorth Trysorlys EM, rhoddwyd sylw hefyd i bryderon a godwyd gan y proffesiwn cyfrifyddu am eu hadrodd i ni. Cyflawnwyd hyn gennym trwy weithio gyda Phwyllgor Ymgynghorol y Cyrff Cyfrifyddu ar ddiweddaru eu canllawiau i sicrhau archwilwyr y gallant adrodd i ni heb fynd yn groes i'w dyletswyddau o dan y rheoliadau gwyngalchu arian.

## Blaenoriaeth 4: Gweithredu fel rheoleiddiwr arbenigol ac effeithlon gyda chyllid cynaliadwy

### Rhaglen Weddnewid

Rydym yn nhrydedd flwyddyn rhaglen £8 miliwn a ariannwyd gan Drysorlys EM i ailgynllunio ein model gweithredu a'n prosesau busnes i sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

Canolbwyntiodd dwy flynedd gyntaf y rhaglen ar osod y sylfeini ar gyfer newid gweddnewidiol yn y Comisiwn i alluogi arbedion effeithlonrwydd a datblygu ei enw da fel rheoleiddiwr effeithiol a arweinir gan risg.

Arweiniodd y Rhaglen Weddnewid at y gwelliannau canlynol i berfformiad eleni:

### Rheoleiddio wedi ei arwain gan risg

Er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd ymddiried yn yr elusennau yr ydym yn eu rheoleiddio, mae'n rhaid i ni fod yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar risg sy'n canolbwyntio'n bennaf ar orfodi ac atal. Er mwyn bodloni'r disgwyliad hwn, bu llawer o'r pwyslais dros y flwyddyn ddiwethaf ar wella ein dull o ymdrin â risg yn y sector.

Cafodd ansawdd ein data ei wella, a dechreuwyd defnyddio technoleg wedi ei theilwra i asesi risg reoleiddio mewn achosion unigol ac ar draws y sector. Er enghraifft, mae awtomeiddio ein gwasanaethau mewn sefyllfaoedd isel eu risg yn golygu y gallwn adleoli staff i waith mwy strategol a mwy uchel ei risg, gan ganolbwyntio ar y rheini y mae angen craffu mwy arnynt. Bydd hyn hefyd yn gwella ansawdd data ar elusennau. Rydym yn defnyddio ffactorau risg amrywiol at ddibenion monitro rhagweithiol a cheir proses brysbennu porth newydd a gwell yn ein Huned Asesu Risg erbyn hyn.

**Adolygiad gan gymheiriaid o wasanaethau cyfrifyddu**

Yn rhan o'n hymgyrch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gofynnwyd i adran llywodraeth arall gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'n gwasanaethau cyfrifyddu yn ystod haf 2016. Roedd hyn er mwyn cael sicrwydd bod ein gwaith cyfrifyddu arbenigol yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd mor effeithiol â phosibl ac i ddysgu o arfer gorau a rhannu arfer gorau gydag asiantaethau eraill. Mae'r argymhellion ar wella fformat adroddiadau, cyfochri arbenigedd cyfrifyddu yn agosach i gefnogi'r risgiau rheoleiddio mwyaf, a gwella'r gwasanaethau cymorth arbenigol i'n timau gweithredol ac ymchwilio oll wedi cael eu rhoi ar waith.

### Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol

Rydym wedi datblygu prosesau a rheolau busnes o un pen i'r llall ar gyfer gwaith achos, archdeipiau (arferion nodweddiadol), ac wedi cynllunio un system gwaith achos â llif gwaith wedi'i awtomeiddio.

Mae hyn yn arwain at reoleiddio mwy cyson, prosesau gwell a rhoi caniatâd a chydsyniad yn gyflymach - e.e. derbyniwyd 98,458 o e-byst, galwadau a llythyrau gennym y llynedd (2015-16: 102,147) ac ymatebwyd i 90% o ymholiadau cwsmeriaid o fewn 15 diwrnod gwaith (2015-16: 90%).

Rydym wedi llwyddo i gyflawni ad-drefniadau o'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Chyfathrebu a'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau, gan gynnwys Gwasanaethau Seilwaith.

### Manteisio ar ddigidol

Rydym yn darparu gwasanaethau digidol i alluogi elusennau i gael mynediad at geisiadau hunan-wasanaethu yn haws. Bydd hyn yn gwella cyflymder prosesu ac yn darparu data gwell, a bydd yr amser sy'n cael ei arbed yn ein galluogi i ganolbwyntio ar waith achos blaenoriaeth uchel.

Yn rhan o'n strategaeth ddigidol, lansiwyd ein Datganiad Blynyddol ar-lein newydd a'n gwasanaeth cofrestru ar-lein. Bydd gwasanaethau digidol wedi'u hawtomeiddio newydd, gan gynnwys newid enw elusen a diwygiadau i elusennau, yn cael eu darparu yn 2017-18. Bydd hyn yn cynnwys proses fewngofnodi newydd i sicrhau diogelwch gwell a lleihau twyll a gwasanaeth 'digidol â chymorth' i helpu pobl i gael mynediad at ein systemau.

### Diwylliant y Comisiwn

Mae'r gofynion cynyddol ar ein gweithlu sy'n lleihau, yn enwedig yn ystod cyfnod o weddnewid wedi bod yn brawf i'n staff, fel yr adlewyrchir yng nghanlyniadau'r arolwg staff. Fodd bynnag, mae'r staff wedi dangos diwydrwydd ac ymrwymiad i'r Comisiwn sydd wedi galluogi gwelliannau sylweddol a pharhaus i'n perfformiad rheoleiddio a gweithredol.

Lansiwyd cynllun gweithlu, arolwg sgiliau a rhaglennu datblygu arweinwyr a hyfforddi staff gennym. Cofnododd ein cyflogeion gyfartaledd o 3.9 diwrnod yr un ar weithgareddau dysgu.

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth gref yn hanfodol a lansiwyd rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer ein 30 arweinydd uchaf; roedd y rhaglen yn boblogaidd ac rydym yn ei hehangu yn 2017-18 i dros 50 o reolwyr.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect uchelgeisiol i fapio'r sgiliau craidd a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar y busnes yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno trwy gydol 2017-18 a bydd yn cynorthwyo gwaith recriwtio, ymsefydlu, datblygu llwybrau datblygu a pherfformiad.

**Cyllid cynaliadwy**

Bydd parhau i ddarparu rheoleiddio elusennol effeithiol yn unol â' cyllideb bresennol yn her sylweddol. Fel rheoleiddiwr cyfrifol, mae'n rhaid i ni archwilio ffyrdd o sicrhau bod y cyllid sydd ei angen arnom gennym ni nawr ac yn y dyfodol, i reoleiddio elusennau mewn ffordd sy'n golygu y gall y cyhoedd fod ag ymddiriedaeth a hyder ynddynt. Rydym yn bwriadu ymgynghori â'r sector ar ein model cyllid cynaliadwy, a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'n helusennau a'r Comisiwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

**Cwynion a'r Ombwdsmon Seneddol**

Mae'r Comisiwn yn gweithredu proses fewnol dau gam ar gyfer ystyried cwynion am ei weinyddiaeth. Mae cam un yn gyfle ar gyfer ystyriaeth o'r newydd o fewn y tîm sy'n ymdrin â'r mater gwreiddiol. Adolygiad hyd braich yw cam dau, os na fydd y mater wedi cael ei ddatrys. Gostyngodd nifer y cwynion a gyrhaeddodd cam dau o 30 i 13 eleni. Rydym yn ymdrin yn gyffredinol â thri math o gŵyn yn ystod cam dau - ymyrraeth reoleiddio annigonol, camgymeriadau/cyngor aneglur neu anghywir ac oedi/prydlondeb.

O'r 23 o faterion a ystyriwyd fel cwynion, cadarnhawyd pedwar mater gennym yn rhannol (o'i gymharu â 47 o faterion a godwyd ac 11 a gadarnhawyd yn rhannol y llynedd).

Derbyniodd yr Ombwdsmon un gŵyn i'w hymchwilio eleni (o'i gymharu â saith y llynedd). Mae un achos arall yn cael ei asesu ar adeg ysgrifennu hyn.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Derbyniwyd ac ymatebwyd i 636 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn (2015-16: 630). O'r rhain, ymatebwyd i 89% yn unol ag amserlenni statudol.

**Dangosyddion Perfformiad Allanol**

Mae dau o'n Dangosyddion Perfformiad Allanol yn Ddangosyddion Perfformiad Allanol.

Mae'r Dangosydd Perfformiad Allanol cyntaf yn olrhain canran ein gwaith achos cydymffurfiad y dosberthir ei fod yn cael effaith fuddiol ar y sector. Pan fydd pob achos yn dirwyn i ben, mae ein gweithwyr achos yn neilltuo cod canlyniad sy'n adlewyrchu effaith ein gwaith – defnyddir y codau hyn wedyn i werthuso effaith fuddiol. Yn 2016-17, dosbarthwyd fod 90% (2015-16: 85%) o'n hachosion cydymffurfiad yn cael effaith fuddiol ar y sector, gan fodloni'r targed a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae'r ail Ddangosydd Perfformiad Allanol yn ddeublyg ac yn olrhain lefel gyffredinol ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn (i) y sector elusennau a (ii) y Comisiwn Elusennau – wedi ei fesur bob yn ail blwyddyn gan arolwg o dros 1,000 o bobl ac wedi'i gynnal gan gwmni ymchwil proffesiynol.

Mesurwyd bod ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau yn 5.7 (lle mae 0 yn ddim hyder a 10 yn hyder llawn) yn 2016, yn cynrychioli gostyngiad a ragwelwyd yn eang (o 6.7 yn 2014) yn dilyn nifer bach o fethiannau llywodraethu elusennau uchel eu proffil yn ymwneud â chyllid a chodi arian. Mae'r Comisiwn ac elusennau yn parhau i weithio i nodi a mynd i'r afael ag achosion methiannau o'r fath.

Yn 2017, mesurwyd bod ymddiriedaeth a hyder yn y Comisiwn yn 6.0, gan gadw'n sefydlog o'r arolwg blaenorol yn 2015. Hefyd, roedd 88% o'r cyhoedd yn cytuno bod swyddogaeth y Comisiwn yn hanfodol neu'n bwysig iawn. Dywedodd 71% o'r cyhoedd bod gweld bod elusen wedi ei gofrestru yn eu cysuro.

# 6. Atodiad cyfreithiol

Mae'r atodiad Cyfreithiol hwn yn cynnig trosolwg o'r heriau cyfreithiol yn erbyn ein penderfyniadau yn ystod y flwyddyn a'r tueddiadau presennol yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau). Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau o benderfyniadau cyfreithiol arwyddocaol a wnaed gennym ni, y Tribiwnlysoedd neu'r Llysoedd am gyfraith a rheoliadau elusennol.

Fel yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd nifer bach o heriau cyfreithiol o hyd, o'i gymharu â'r nifer sylweddol o bwerau cyfreithiol i ni eu harfer: 10 o achosion newydd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, a thri o achosion newydd yn y Llys Gweinyddol. Amddiffynnwyd ein penderfyniadau yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, ac ni chafodd unrhyw benderfyniadau eu gwrthdroi gan Lys neu Dribiwnlys.

Mae ein tîm cyfreithiol hefyd yn rheoli ein gwasanaeth adolygu penderfyniadau, sy'n cynnig adolygiad mewnol o lawer o'n penderfyniadau. Cynhaliwyd 21 o adolygiadau o benderfyniadau gennym yn ystod y flwyddyn, a oedd yn gynnydd sylweddol (2015-16: 14). O'r rhain, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol gan wyth o adolygiadau penderfyniad, gwrth-drowyd y penderfyniad gwreiddiol gan bump, tynnwyd tri yn ôl neu cawsant eu dirwyn i ben ac mae pump yn parhau.

## Tueddiadau a datblygiadau

### Datrys achosion yn gynnar

Rydym yn parhau i annog datrysiad cynnar o achosion. O'r 11 o achosion a gafodd eu dirwyn i ben yn ystod y flwyddyn, cafodd saith eu datrys heb wrandawiad llawn cyn y Tribiwnlys. Mewn rhai achosion, rydym wedi gofyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf atal (oedi) yr achosion cyfreithiol tra'r ydym yn ceisio cytuno setliad (gweler, er enghraifft, CA/2016/0007 & 0009 *Plitnick)* neu tra byddwn yn cwblhau adolygiad o benderfyniad o dan ein gweithdrefn fewnol (gweler, er enghraifft, CA/2016/0008 *Cambridge Islamic College)*. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn arwain i ni wrthdroi ein penderfyniad, gan arwain y sawl sy'n apelio i dynnu'r apêl yn ôl (gweler, er enghraifft, CA/2017/0003 *The Chapel in the Garden, Bridport)*.

### Amddiffyn ein penderfyniadau i beidio ag ymchwilio

Mewn dau achos eleni, cafodd achosion adolygiad barnwrol eu dwyn yn y Llys Gweinyddol yn ceisio ein cymell i ymchwilio i'w pryderon am elusennau. Ym mhob achos, cymhwyswyd ein fframwaith risg a phenderfynwyd peidio ag ymchwilio ymhellach, yn seiliedig ar y dystiolaeth. Cadarnhawyd ein dau benderfyniad gan y Llys Gweinyddol, gan wrthod yr achosion adolygiad barnwrol a gorchymyn yr unigolion i dalu ein costau cyfreithiol.

### Achosion yn parhau i egluro awdurdodaeth a gweithdrefn y Tribiwnlys mewn apeliadau elusennau

Mewn dau achos, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf na allai wrando ar apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau i beidio â gwneud cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i elusen newid ei enw o dan adran 42 Deddf Elusennau 2011 (CA/2017/0001 *Leeds Cat Rescue*, penderfyniad 16 Ionawr 2017; CA/2016/0002 *Hospice Aid UK*, penderfyniad 13 Ebrill 2016). Mewn cyferbyniad, pan wnaed cyfarwyddyd gennym, gellid herio hwn yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (gweler, er enghraifft, CA/2016/0008 *Cambridge Islamic College*).

Cadarnhaodd yr Uwch Dribiwnlys hefyd yn achos *Abdul Razzaq and Javaid Malik* [2016] UKUT 0546 (TCC) bod gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf awdurdodaeth i ychwanegu parti at achos hyd yn oed ar ôl ei benderfyniad o sylwedd. Mae hwn yn benderfyniad yn ôl disgresiwn yn dibynnu ar ffeithiau'r achos – yn y pen draw, penderfynodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf beidio ag ychwanegu'r ymgeiswyr hyn: gweler penderfyniad CA/2014/0016 *Anique*, o 24 Mawrth 2017.

Ym mhob un o'r achosion hyn, cadarnhaodd y Tribiwnlys safbwynt y Comisiwn o'i awdurdodaeth a'i weithdrefn.

## Penderfyniadau arwyddocaol

### Achosion yn y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Tribiwnlysoedd

### Ymddiriedolwyr Manchester New Moston yn erbyn Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: [2017] UKUT 0134 (TCC)

*(Uwch Dribiwnlys – penderfyniad yr ymchwiliad a chwmpas y datgeliad/croesholi cyn y Tribiwnlys)*

Roedd yr achos hwn yn herio penderfyniad y Comisiwn i sefydlu ymchwiliad statudol o dan adran 46 Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) i'r elusen hon, sef cynulleidfa o Dystion Jehova. Diben yr ymchwiliad oedd ymchwilio i bryderon rheoleiddio ynghylch diogelu plant yn yr elusen.

Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) wedi cadarnhau penderfyniad y Comisiwn i sefydlu'r ymchwiliad, ym mis Ebrill 2015. Roedd yr achos Uwch Dribiwnlys hwn yn apêl gan ymddiriedolwyr yr elusen yn erbyn penderfyniad o sylwedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn ogystal â dwy apêl gysylltiedig yn erbyn cyfarwyddiadau rheoli achos a wnaed gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth baratoi ar gyfer ei wrandawiad.

Gwrthodwyd bob un o'r tair apêl gan yr Uwch Dribiwnlys, gan gadarnhau penderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac, yn y pen draw, penderfyniad y Comisiwn i sefydlu'r ymchwiliad. Mae achos yr Uwch Dribiwnlys yn cynnig sylwadau defnyddiol ar sut y dylai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ymdrin â dadleuon gwahaniaethu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn ogystal â chwestiynau gweithdrefnol pwysig am gwmpas y datgeliad a'r croesholi mewn achos 'adolygu' gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 321 Deddf 2011.

Yn yr apêl o sylwedd, dadleuodd yr ymddiriedolwyr bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi gwneud camgymeriadau cyfreithiol wrth wrthod eu dadl bod sefydlu'r ymchwiliad yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn groes i Erthygl 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a oedd yn golygu bod y Comisiwn wedi gweithredu'n anghyfreithlon o dan adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cytunodd yr Uwch Dribiwnlys bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf naill ai wedi defnyddio'r prawf cyfreithiol anghywir ar gyfer pryd y mae Erthygl 14 yn cael ei rhoi ar waith, neu wedi defnyddio'r derminoleg anghywir i ddisgrifio'r prawf hwn (paragraff 93 y penderfyniad). Fodd bynnag, cytunodd yr Uwch Dribiwnlys â'r Comisiwn bod y camgymeriad hwn o ddiddordeb academaidd yn unig, oherwydd i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf fynd yn ei flaen i ystyried a aethpwyd yn groes i Erthygl 14 mewn gwirionedd, a dod i gasgliad a ganiateir, ar sail y dystiolaeth, na fu unrhyw wahaniaethu (paragraffau 94 i 97). Roedd hyn yn golygu y byddai penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cael ei gadarnhau a'r apêl o sylwedd yn cael ei wrthod (paragraff 98).

Roedd yr apêl rheoli achos cyntaf yn ymwneud â datgelu gwybodaeth a dogfennau yr oedd y Comisiwn wedi eu golygu er mwyn gwarchod manylion adnabod yr achwynwyr. Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi penderfynu nad oedd y deunydd a olygwyd yn

berthnasol i'r achos a blediwyd, ac wedi rhoi cyfarwyddyd o dan Reol 15 ei Reolau nad oedd angen datgelu'r deunydd.

Yn eu hapêl yn erbyn y cyfarwyddyd hwn, gofynnodd yr ymddiriedolwyr am fersiynau heb eu datgelu o'r dogfennau, gan ddadlau bod y deunydd a olygwyd yn berthnasol i'w hachos a bod angen datgeliad o dan Reolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac egwyddor cyfiawnder agored. Ystyriodd yr Uwch Dribiwnlys yr egwyddorion cyfreithiol yn fanwl, ochr yn ochr â hanes gweithdrefnol yr achos Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn y pen draw, penderfynodd yr Uwch Dribiwnlys, o dan amgylchiadau'r achos, bod gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf hawl i roi'r cyfarwyddyd a roddodd ac nad oedd unrhyw gamgymeriad cyfreithiol (paragraff 48 y penderfyniad).

Roedd yr ail apêl rheoli achos yn ymwneud â chwmpas croesholi tystion y Comisiwn gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi rhoi cyfarwyddyd blaenorol i reoli cwmpas y croesholi, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr nodi'r materion yr oeddent yn dymuno croesholi tystion y Comisiwn yn eu cylch ac i esbonio sut y byddai hyn yn datblygu eu hachos a blediwyd. Roedd yr ymddiriedolwyr wedi apelio'n aflwyddiannus yn erbyn y weithdrefn hon yn gynharach, ac roeddent yn apelio yn erbyn dyfarniad dilynol y Tribiwnlys Haen Gyntaf bellach yn cyfyngu ar gwmpas y croesholi. Unwaith eto, ystyriodd yr Uwch Dribiwnlys yr egwyddorion cyfreithiol ochr yn ochr â'r hanes gweithdrefnol. Cadarnhaodd yr Uwch Dribiwnlys ddyfarniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gan ganfod ei fod o fewn cwmpas priodol disgresiwn y Barnwr ac nad oedd yn cynnwys camgymeriad cyfreithiol perthnasol (paragraffau 63 i 66 y penderfyniad).

Gwnaeth yr Uwch Dribiwnlys sylwadau mwy cyffredinol hefyd y byddai'n anarferol i groesholi gael ei ganiatáu mewn achosion 'adolygu' o dan adran 321 Deddf 2011, gan fod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn adolygu penderfyniad y Comisiwn mewn achosion o'r fath, yn hytrach na gweithredu fel canfuwr ffeithiau ei hun.

Darllenwch benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys

**Watts yn erbyn Stewart ac Ors [2016] EWCA Civ 1247**

*(Llys Apêl – statws cyfreithiol preswylwyr elusendy o dan gyfraith dir; cwmpas achosion elusennol o dan adran 115 Deddf Elusennau 1998; cymhwyso Deddf Hawliau Dynol 1998 i breswylwyr elusendy)*

Achos Llys Apêl oedd hwn yn codi sawl cwestiwn cyfreithiol pwysig am elusennau elusendy a'r weithdrefn ar gyfer troi preswylwyr elusendai allan. Cododd yr achos o anghydfod rhwng ymddiriedolwyr elusen elusendy a phreswyliwr yr oeddent yn dymuno ei droi allan.

Ymyrrodd y Comisiwn yn yr achos yn ffurfiol, ochr yn ochr â'r Gymdeithas Elusendai Genedlaethol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, er mwyn esbonio ei swyddogaeth fel rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr ac i fynegi ei farn ar y fframwaith cyfreithiol perthnasol.

Mae tri phwynt pwysig yn codi o ddyfarniad y Llys Apêl.

Yn gyntaf, gwrthododd y Llys Apêl ddadl y diffynnydd ei bod yn meddiannu safle'r elusendy fel tenant, a fyddai wedi rhoi hawliau ychwanegol iddo o dan gyfraith dir. Daeth y Llys Apêl i'r casgliad, yn hytrach, ei bod yn meddu ar drwydded bersonol i feddiannu'r safle o dan delerau llythyr penodi a gyflwynwyd gan yr ymddiriedolwyr. Wrth ddod i'r casgliad hwn, cymhwysodd a chymeradwyodd y Llys Apêl ddyfarniad blaenorol y Llys Apêl yn *Gray v Taylor* [1998] 1 WLR 1093.

Yn ail, roedd y Llys Apêl o'r farn nad oedd yr achos yn 'achos elusennol' yn ôl y diffiniad yn adran 115(8) Deddf Elusennau 2011. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr ofyn am gydsyniad y Comisiwn cyn dwyn yr achos. Daeth y Llys Apêl i'r casgliad hwn oherwydd iddo ganfod nad oedd achos dros feddiannu safle elusendy yn ymwneud â 'gweinyddiaeth fewnol yr elusen'.

Yn drydydd, gwrthododd y Llys Apêl ddadl y diffynnydd bod y weithdrefn ar gyfer ei throi allan yn gwahaniaethu yn ei herbyn gan fynd yn groes i'w hawliau o dan Erthygl 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yng nghyswllt ei hawliau Erthygl 8. Nid oedd yn ofynnol i'r Llys Apêl benderfynu a oedd yr elusen yn 'awdurdod cyhoeddus' at ddiben Deddf Hawliau Dynol 1998, gan fod hyn wedi cael ei ildio gan y diffynnydd yn y llys is a gwrthododd y Llys Apêl ganiatâd i dynnu'r ildiad yn ôl.

Fodd bynnag, aeth y Llys Apêl yn ei flaen i ystyried, yn fanwl, a oedd safbwynt cyfreithiol preswylwyr elusendai yn gyson â chyfraith hawliau dynol. Ceir sylwadau defnyddiol ar wahanol gamau'r ddadl hawliau dynol, er na fu angen i'r Llys ddod i gasgliad ar bob pwynt yn y pen draw. Yn y pen draw, daeth y Llys i'r casgliad y gellid cyfiawnhau gwrthod diogelwch deiliadaeth i breswylwyr elusendai yn eglur o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel mesur cymesur sy'n sicrhau cydbwysedd teg rhwng buddiannau elusennau a phreswylwyr elusendai presennol ac yn y dyfodol. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr egwyddor yn *Gray v Taylor*, a gymeradwywyd yn yr achos hwn, yn mynd yn groes i gyfraith hawliau dynol.

Mae'r diffynnydd wedi gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad hwn i'r Goruchaf Lys. Ar adeg ysgrifennu hyn, nid oedd y Goruchaf Lys wedi cyhoeddi ei benderfyniad o ran a ddylai roi caniatâd i apelio.

Darllenwch ddyfarniad y Llys Apêl

**Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn erbyn Stephen Hunt: [2016] UKUT 0210 (TCC)**

*(Uwch Dribiwnlys – sbardun cychwynnol ar gyfer cyfyngiad amser 42 diwrnod y Tribiwnlys ar gyfer apêl)*

Yn yr apêl hon, galwyd ar yr Uwch Dribiwnlys i benderfynu pryd y mae'r cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno apêl yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau).

Roedd yr achos yn canolbwyntio ar eiriad Rheol 26(1) Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, sy'n nodi'r cyfyngiad amser ar gyfer dechrau apêl elusennol yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Nid oedd unrhyw anghydfod ynghylch y cyfnod amser, sy'n 42 diwrnod ar gyfer achosion elusennau. Roedd y broblem ynghylch pryd yr oedd y cyfnod amser o 42 diwrnod yn dechrau. Mae Rheol 26(1) yn cynnig dau opsiwn:

*a. if the appellant was the subject of the decision to which the proceedings relate, within 42 days of the date on which notice of the decision was sent to the appellant*

*b. if the appellant was not the subject of the decision to which the proceedings relate, within 42 days of the date on which the decision was published*.

Roedd yr apelydd yn ceisio apelio yn erbyn penderfyniad gan y Comisiwn i wrthod cyfansoddi Sefydliad Corfforedig Elusennol a'i gofrestru fel elusen, o dan adran 208 Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011). Gellir apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 319 ac Atodlen 6 Deddf 2011, gan gynnwys gan yr apelydd fel un o'r bobl a wnaed y cais cofrestru i'r Comisiwn.

Hysbyswyd yr apelydd i gychwyn y gwrthodwyd y cais ar 15 Mehefin 2015. Gofynnodd i'r Comisiwn gynnal adolygiad mewnol o'r penderfyniad hwn. Cadarnhaodd yr adolygiad mewnol y penderfyniad cynharach ac anfonwyd penderfyniad yr adolygiad at yr apelydd ar 31 Gorffennaf 2015. Cyhoeddodd y Comisiwn grynodeb o'i benderfyniad adolygu ar ei wefan ar 4 Awst 2015.

Cyflwynodd yr apelydd Hysbysiad o Apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar 15 Medi 2015. Y broblem oedd a gyflwynwyd yr Hysbysiad o Apêl hwn o fewn y cyfyngiad amser 42 diwrnod.

Dadleuodd yr apelydd bod y cyfyngiad amser yn dechrau ar 4 Awst 2015, pan gyhoeddwyd y penderfyniad ar wefan y Comisiwn. Dadleuodd nad oedd Rheol 26(1)(a) Rheolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn berthnasol, gan mai'r ddarpar elusen oedd 'testun y penderfyniad', nid fe fel hyrwyddwr unigol yr elusen. Dadleuodd, o dan Reol 26(1)(b), bod y cyfyngiad amser yn dechrau dim ond pan gyhoeddodd y Comisiwn y penderfyniad ar 4 Awst 2015. Derbyniwyd dadl yr apelydd gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Yn yr apêl yn yr Uwch Dribiwnlys, dadleuodd y Comisiwn bod yr amser yn cychwyn ar 31 Gorffennaf 2015, pan anfonwyd penderfyniad yr adolygiad at yr apelydd. Cyflwynodd y Comisiwn ddwy wahanol ddadl:

a. O dan Reol 26(1)(a), yr apelydd oedd 'testun y penderfyniad', fel un o'r unigolion a wnaeth y cais. Ni ddaeth yr elusen arfaethedig i fodolaeth, oherwydd i'r Comisiwn wrthod ei ystyried yn Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ni allai, felly, fod yn 'destun y penderfyniad'.

b. Fel arall, o dan Reol 26(1)(b), 'cyhoeddwyd' y penderfyniad yng nghyswllt yr apelydd ar 31 Gorffennaf 2015, pan gafodd ei anfon ato ac y'i derbyniwyd ganddo yn bersonol - yn hytrach na'r dyddiad diweddarach pan roddwyd crynodeb ar wefan y Comisiwn. Esboniodd y Comisiwn nad yw ei holl benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi ac y byddai dadl yr apelydd (a phenderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf) yn golygu nad oedd y cyfyngiad amser yn dechrau ar gyfer llawer o benderfyniadau y gellid eu herio am gyfnod amhenodol.

Derbyniodd yr Uwch Dribiwnlys ddadleuon y Comisiwn. Cytunodd y Barnwr y dylid dehongli Rheol 26 yn y fath ffordd bod rhaid i apelydd ar gyfer cyfansoddiad a chofrestriad Sefydliad Corfforedig Elusennol, y cyflwynwyd hysbysiad o benderfyniad y Comisiwn yn gwrthod ei gais, wneud apêl o fewn 42 diwrnod o'r hysbysiad. Penderfynodd y Barnwr na allai fod yn gywir, fel mater o egwyddor, y gallai'r apelydd oedi cyn gwneud apêl a gofyn am 42 diwrnod arall os a phryd y bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar wefan y Comisiwn (gweler paragraff 21 y penderfyniad).

Cytunodd yr Uwch Dribiwnlys bod dwy ddadl y Comisiwn yn ffyrdd derbyniol o sicrhau'r canlyniad iawn. Ar y cyfan, gwnaeth yr Uwch Dribiwnlys benderfyniad ar yr achos yn seiliedig ar Reol 26(1)(a): roedd o'r farn mai'r apelydd oedd 'testun y penderfyniad' (paragraff 22 y penderfyniad). O ganlyniad, cyflwynwyd yr apêl yn rhy hwyr.

Ailgyfeiriodd yr Uwch Dribiwnlys yr achos i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf fel y gallai'r apelydd wneud cais am estyniad amser gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yr oedd ganddo'r hawl i'w roi fel mater o ddisgresiwn o dan Reol 5(3)(a) Rheolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Fodd bynnag, ni wnaeth yr apelydd gais am estyniad amser ac felly cafodd yr achos ei ddirwyn i ben.

Darllenwch benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys

**CA/2016/0001 Ymddiriedolaeth Elusennol 1Click**

*(Tribiwnlys Haen Gyntaf – tynnu elusen oddi ar y gofrestr elusennau o dan adran 34 Deddf Elusennau 2011)*

Yn yr achos hwn, roedd y Comisiwn wedi cofrestru'r elusen yn 2010 ar sail sicrwydd gan hyrwyddwyr yr elusen y byddai'n bodloni'r trothwy incwm gofynnol ar gyfer cofrestru (£5,000) o dan adran 30 Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) yn fuan.

Fodd bynnag, ni chyrhaeddodd incwm blynyddol yr elusen y trothwy hwn ac roedd yn llai na £5 y flwyddyn am sawl blwyddyn. O ganlyniad, ysgrifennodd y Comisiwn at yr elusen i ddynodi ei fod yn bwriadu tynnu'r elusen oddi ar y Gofrestr Elusennau ar y sail nad oedd yr elusen yn gweithredu. Rhoddwyd estyniad amser i'r elusen i ymateb i'r llythyr hwn, ond ni chyflwynodd ymateb yn y pen draw ac fe'i tynnwyd oddi ar y Gofrestr ym mis Chwefror 2016.

Cyflwynodd yr elusen apêl yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) yn erbyn penderfyniad y Comisiwn i'w thynnu oddi ar y Gofrestr o dan adran 34(1)(b) Deddf 2011 Act. Dadleuodd yr elusen y dylai'r Comisiwn fod wedi gwneud ymholiadau pellach cyn ei thynnu oddi ar y Gofrestr a bod ei benderfyniad yn wallus.

Gan fod hwn yn achos 'apêl' o dan adran 319 Deddf 2011, fe'i gwnaed yn eglur gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf mai ei swyddogaeth oedd ystyried y penderfyniad o'r newydd (adran 319(4) Deddf 2011), sy'n golygu bod rhaid iddo benderfynu a fyddai, ar sail y dystiolaeth ger ei fron, yn arfer y grym statudol i dynnu'r elusen oddi ar y Gofrestr. Nid oedd yn berthnasol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ystyried dadleuon amrywiol yr elusen bod y Comisiwn wedi gweithredu'n anghyfreithlon, yn anonest neu â chamweinyddiaeth wrth wneud ei benderfyniad (gweler paragraff 9 y penderfyniad).

Dywedodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf bod y cwestiwn o ba un a yw elusen yn gweithredu ai peidio yn gwestiwn o ffaith i gael ei asesu ym mhob achos (paragraff 17 y penderfyniad). Ystyriodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf y dystiolaeth yn ofalus (paragraffau 11 i 16), a daeth i'r casgliad nad yw'r elusen yn gweithredu. Roedd hyn oherwydd ei fod wedi ymgymryd â gweithgarwch elusennol dibwys ers ei sefydliad ac nad oedd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth o fod wedi mabwysiadu dull strwythuredig o gynhyrchu cyllid er mwyn gweithredu yn y dyfodol (paragraff 17).

Er i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gydymdeimlo ag analluu'r elusen i gael gafael ar gyllid grant, ni dderbyniodd nad oedd elusen â nodau disgresiynol eang ond incwm isel yn gallu gweithredu o reidrwydd. Nododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf bod llawer o elusennau bach yn hynod weithredol o ran hyrwyddo eu nodau a'u bod yn aml yn arloesol yn wyneb anawsterau cyllid. Daeth yr elusen hon yn segur gan ei bod yn fodlon gwneud dim byd o gwbl, ac eithrio ysgrifennu llythyrau yn gofyn am gyllid (paragraff 18).

Dywedodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd nad oedd yr elusen wedi gallu dangos ymdrech barhaus i gael gafael ar gyllid i geisio cyflawni ei nodau. Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf o'r farn bod yr ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu dull nad oedd yn ddigon pwrpasol o redeg yr elusen hon ac y byddai hyn yn ei dro wedi amharu ar ei gallu i godi arian. Roedd diffyg sylw i drefniadau llywodraethol sylfaenol hefyd a fyddai wedi bod yn amlwg i ddarpar ddarparwyr grant (paragraff 19).

O ganlyniad, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf y byddai'r elusen yn cael ei thynnu oddi ar y Gofrestr Elusennau o dan adran 34(1)(b) Deddf 2011.

Mae hwn yn achos pwysig i'w ddehongliad a'i gymhwysiad o'r maen prawf ar gyfer tynnu elusennau oddi ar y Gofrestr Elusennau o dan adran 34(1)(b) Deddf 2011. Ni thynnwyd yr elusen oddi ar y Gofrestr gan fod ei hincwm yn is na'r trothwy o £5,000. Yn hytrach,

tynnwyd yr elusen oddi ar y gofrestr gan nad oedd yn gallu cyflwyno tystiolaeth ddigonol ei bod yn gweithredu, yn yr ystyr o hyrwyddo ei dibenion elusennol neu fod â dull strwythuredig o gynhyrchu cyllid er mwyn gwneud hynny yn y dyfodol.

Mae'r achos yn cefnogi ymdrechion y Comisiwn i gynnal Cofrestr Elusennau gywir a chyfredol er budd y cyhoedd ac elusennau yn gyffredinol.

Darllenwch [benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf]

**CA/2015/0009 Crocels Community Media Group**

*(Tribiwnlys Haen Gyntaf – pwyntiau statws elusennol diddorol)*

Apêl yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) oedd yr achos hwn, yn erbyn penderfyniad y Comisiwn i wrthod ystyried y sefydliad yn Sefydliad Corfforedig Elusennol a'i gofrestru fel elusen. Gwrthododd y Comisiwn gofrestriad ar y sail nad oedd y dibenion arfaethedig yn gwbl elusennol er budd y cyhoedd.

Yn benodol, roedd y Comisiwn wedi penderfynu nad oedd y dibenion arfaethedig o wella brawdoliaeth rhwng cenhedloedd, datblygu'r ddealltwriaeth o heddwch a hyrwyddo ei achos, ac arloesi i ddiddymu a lleihau byddinoedd sefydlog yn ddibenion elusennol cydnabyddadwy ac nid oedd y ffaith y bwriadwyd i'r nodau hyn gael eu hyrwyddo ym mhob achos trwy ffyrdd a oedd yn cyfansoddi'r disgrifiadau o ddibenion elusennol yn Neddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) yn gwneud y nodau eu hunain yn elusennol felly.

Fel y nododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (paragraff 7 y penderfyniad), roedd hwn yn achos apêl o dan adran 319 Deddf 2011, felly swyddogaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf i bob pwrpas oedd ailbenderfynu'r cais cofrestru. Nid oedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn rhoi sylw felly i ganfod a oedd y Comisiwn wedi ymddwyn yn afresymol o ran cyfraith gyhoeddus trwy wrthod y cais cofrestru.

Yn y pen draw, cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf gyda'r Comisiwn nad oedd y nodau arfaethedig yn elusennol, a chadarnhaodd penderfyniad y Comisiwn i beidio â chyfansoddi'r Sefydliad Corfforedig Elusennol a'i gofrestru fel elusen.

Mae penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnig enghraifft dda o'r dull dadansoddol o ymdrin â cheisiadau cofrestru. I grynhoi, roedd rhesymeg y Tribiwnlys Haen Gyntaf am wrthod y cofrestriad fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, nododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf 'ddiben(ion) penodol' yr elusen arfaethedig, yn dilyn penderfyniad terfynol yr Uwch Dribiwnlys yn *ISC v Charity Commission* [2011] UKUT 421 (TCC) (paragraff 82 penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys). Y rhain oedd y tri diben yng nghymal nodau arfaethedig y ddogfen lywodraethu. Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn fodlon mai'r tri diben penodol yr oedd wedi eu nodi oedd y dibenion yr oedd y sefydliad wedi (neu y byddai yn) cael ei sefydlu ar eu cyfer.
- Yn ail, ystyriodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf bob un o'r tri diben i benderfynu a oeddent yn mynegi 'dibenion elusennol', h.y. dibenion sy'n cyd-fynd ag adran 3(1) Deddf 2011 sydd o fudd i'r cyhoedd.
- Trodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf ei sylw at y nodau unigol wedyn. Penderfynodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf nad oedd y nod cyntaf (hybu brawdoliaeth rhwng cenhedloedd) yn ddiben elusennol, yn dilyn penderfyniad Mr Ustus Rowlatt yn *Anglo-Swedish Society v IRC* (1931) 47 TLR 295, yr oedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf o'r farn ei fod yn gyfraith dda o hyd yr oedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi ei rwymo iddi.

- Cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf gyda'r Comisiwn bod yr ail nod (datblygu dealltwriaeth o heddwch a hyrwyddo ei achos) yn cwmpasu dibenion elusennol ac nad ydynt yn elusennol, ac felly nid oedd yn llwyddo i fod yn gwbl elusennol. Yn benodol, roedd yn cynnwys diben a allai fod yn elusennol (datblygu addysg ar bwnc heddwch) â diben gwleidyddol nad oedd yn elusennol (ceisio newid polisi llywodraeth trwy hyrwyddo achos).
- Roedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd yn cytuno â'r comisiwn bod y trydydd nod (arloesi ar gyfer diddymu neu leihau byddinoedd sefydlog) yn ddiben gwleidyddol eglur yn ôl yr ystyr a roddwyd gan Mr Ustus Slade yn *McGovern v AG* [1982] Ch 321. O ganlyniad, nid yw'n mynegi diben elusennol gan ei fod yn cynnwys o reidrwydd ceisio newid polisi llywodraeth.
- Nododd y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd bod dogfen lywodraethu arfaethedig y sefydliad yn cynnwys pŵer datganedig i ddarbwyllo gwleidyddion ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i fabwysiadau gwerthoedd a pholisïau'r elusen, a fyddai'n codi pryderon yn anochel, hyd yn oed pe bai'r nodau yn gwbl elusennol.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, cytunodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf na fyddai'r sefydliad yn elusen pe bai'n cael ei gyfansoddi fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, a chadarnhaodd wrthodiad y Comisiwn i'w gofrestru.

Darllenwch benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**Ymddiriedolwyr y Celestial Church of Christ yn erbyn Lawson [2017] EWHC 97 (Ch)**

*(Uchel Lys – achos achosion elusennol – ymddiriedolwr yn erbyn cyflogai – dehongliad o ddogfen lywodraethu – cymhwyso rheolau cyfraith gyhoeddus o gyfiawnder naturiol mewn elusennau)*

Mae'r dyfarniad Uchel Lys hwn yn ymwneud â cham yr ymddiriedolwyr o gael gwared ar arweinydd ysbrydol elusen anghorfforedig grefyddol. Mae'r dyfarniad yn ystyried:

- pa un a oedd yr arweinydd ysbrydol yn ymddiriedolwr neu'n gyflogai o'r elusen
- y pwys i'w roi i ddogfennau ategol wrth ddehongli'r dogfennau llywodraethu y mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusen eu cofrestru gyda'r Comisiwn
- i ba raddau y mae rheolai cyfiawnder naturiol cyfraith gyhoeddus yn berthnasol i elusennau

Roedd yr achosion yn achosion elusennol yr oedd y Comisiwn wedi eu hawdurdodi o dan adran 115 Deddf Elusennau 2011.

Darllenwch ddyfarniad yr Uchel Lys

**CA/2013/0006; CA/2013/0007 a CA/2013/0008 Sparrow, Carne a Websper (Recreation Ground Caerfaddon)**

Daeth y penderfyniad Tribiwnlys Haen Gyntaf hwn ag anghydfod hirhoedlog am Recreation Ground Caerfaddon i ben.

Yn 2002, roedd yr Uchel Lys wedi penderfynu bod y Recreation Ground wedi ei feddu ar sail ymddiriedolaeth elusennol gan yr ymddiriedolwr ar y pryd (yr awdurdod lleol) i gynnal y Recreation Ground fel cyfleuster hamdden sydd ar gael er budd y cyhoedd yn gyffredinol. Cyn hyn, ym 1974 a 1995, cyflawnwyd dwy weithred ar wahân gan yr ymddiriedolwr ar y pryd: adeiladwyd canolfan chwaraeon a hamdden dan do a maes parcio; a rhoddwyd les i Bath Football Club (Bath Rugby Limited yn ddiweddarach). Fodd bynnag, nid oedd caniatâd ar gyfer y naill weithredu na'r llall yn unol â phenderfyniad yr Uchel Lys yn 2002.

O ganlyniad, ymyrrodd y Comisiwn a chyhoeddodd Gynllun ddiwedd 2012 i ddiwygio llywodraethiad, pwerau a dibenion yr elusen i reoleiddio'r ddwy weithred a chaniatáu i'r ymddiriedolwyr reoli llywodraethiad y Recreation Ground ar sail ymddiriedolaethau elusennol yn y dyfodol. Yn dilyn ymgynghoriad, lluniwyd Cynllun terfynol ym mis Mehefin 2013 o dan bwerau'r Comisiwn o dan adran 69 Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011).

Apeliwyd yn erbyn cynllun 2013 y Comisiwn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau) ym mis Gorffennaf 2013, gan apelyddion a oedd yn fuddiolwyr yr elusen drwy'r ffaith eu bod yn drigolion lleol a oedd yn byw'n agos at y Recreation Ground. Mewn penderfyniad ym mis Mawrth 2014, caniataodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yr apeliadau yn rhannol a gwnaeth Orchymyn yn diwygio Cynllun 2013. Y diwygiadau arwyddocaol oedd bod angen cadw'r Recreation Ground 'in specie' fel man agored a bod les 1995 wedi arwain at achlysur cy-près (yn gwneud newid i nodau'r elusen yn ofynnol).

Ym mis Mai 2014, apeliodd ymddiriedolwyr y Recreation Ground yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf i'r Uwch Dribiwnlys. Caniataodd yr Uwch Dribiwnlys yr apêl, gan wneud canfyddiadau amrywiol ar natur yr ymddiriedolaethau elusennol a chytuno bod y darpariaethau yn y Cynllun yn ymwneud â les 1995 yn 'weinyddol' yn hytrach na 'cy-près', sy'n golygu y gallai'r ymddiriedolwyr eu newid heb gydsyniad y Comisiwn ymlaen llaw. Ailgyfeiriodd yr Uwch Dribiwnlys yr achos i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i gael ei ail-glywed yn unol â chanfyddiadau'r Uwch Dribiwnlys.

Yn yr achos Tribiwnlys Haen Gyntaf dilynol, cyflwynodd yr ymddiriedolwyr ddiwygiadau drafft i'r Cynllun er mwyn cydymffurfio â dyfarniad yr Uwch Dribiwnlys. Ar ôl rhai addasiadau, cytunodd y Comisiwn i'r diwygiadau drafft. Parhaodd yr apelyddion i wrthwynebu.

Cynhaliodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrandawiad a chyhoeddodd ei benderfyniad ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r penderfyniad yn derbyn diwygiadau arfaethedig yr ymddiriedolwyr i raddau helaeth ac yn amgáu Cynllun diwygiedig a luniwyd gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r penderfyniad o ddiddordeb fel enghraifft o swyddogaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth ystyried cynllun, ac yn enwedig wrth ystyried sut i lunio cynllun yn unol â dyfarniad cyffredin yr Uwch Dribiwnlys. Yn ei hanfod, mabwysiadodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf y dull bod ganddo'r grym i wneud unrhyw beth y gallai'r Comisiwn fod wedi ei wneud ond dim mwy. Penderfynodd mai'r dull priodol oedd ystyried a oedd angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun drafft ond i ddilyn cyfansoddiad cul n y dull hwnnw, gan fod yn ystyriol bob amser o (a) y cyfyngiadau a orfodwyd gan benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys a (b) y ffaith bod unrhyw faterion ym mhenderfyniad gwreiddiol y Tribiwnlys Haen Gyntaf na apeliwyd yn eu herbyn wedi eu setlo bellach ac na ellid eu hailagor.

Mae penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dod â chyfres hirfaith o achosion cyfreithiol i ben a dylai roi rhywfaint o sicrwydd nawr i gynorthwyo'r elusen yn y dyfodol.

Darllenwch benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf

## Ein penderfyniadau ar statws elusennol

### The Temple of the Jedi Order

Ystyriodd y Comisiwn gais gan y Temple of the Jedi Order ar gyfer cyfansoddi Sefydliad Corfforedig Elusennol a chofrestru fel elusen. Roedd y penderfyniad a wnaed o dan a.208 Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) yn gwrthod cyfansoddi a chofrestru'r Sefydliad Corfforedig Elusennol arfaethedig ar y sail na fyddai'r sefydliad yn elusen ar yr adeg y byddai'n cael ei gofrestru, gan na fyddai'n cael ei sefydlu at ddibenion cwbl elusennol. Nid oedd y Comisiwn yn fodlon bod Jediaeth yn grefydd yn ôl cyfraith elusennau, na bod y sefydliad wedi ei sefydlu i hybu gwelliant moesol neu foesegol er budd y cyhoedd.

Roedd yn rhaid i'r Comisiwn ystyried y diffiniad o grefydd mewn cyfraith elusennau, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth i ba raddau y gallai penderfyniad y Goruchaf Lys ar ystyr 'addoli crefyddol' ar gyfer mannau addoli cofrestredig yn *R (on the application of Hodkin and another) v Registrar General of Births, Deaths and Marriages* [2013] UKSC 77 fod yn berthnasol i gwmpas cyfraith elusennau.

Roedd dibenion y Sefydliad Corfforedig Elusennol arfaethedig yn cynnwys *"Datblygu crefydd Jediaeth er budd y cyhoedd ledled y byd, yn unol â'r Athrawiaeth Jedi"*.

Mae datblygu crefydd yn ddisgrifiad o ddiben yn adran 3(1) Deddf 2011 a diffinnir crefydd yn rhannol yn adran 3(2) i gynnwys *"(i) a religion which involves belief in more than one god, and (ii) a religion which does not involve belief in a god"*.

O'r statud a chyfraith achosion, mae'r Comisiwn yn dilyn yr egwyddorion bod crefydd mewn cyfraith elusennau yn cael ei briodoli gan gred mewn un neu fwy o dduwiau neu egwyddorion neu bethau ysbrydol neu nad ydynt yn seciwlar a pherthynas rhwng cefnogwyr y grefydd a'r duwiau, egwyddorion neu bethau a fynegir gan addoliad, parchedigrwydd a mawl, dwysbarch, eiriolaeth neu drwy ryw ddefod neu wasanaeth crefyddol arall; yn gallu darparu gwerth neu oleuad moesol neu foesegol i'r cyhoedd; ac sydd â lefel benodol o argyhoeddiad, difrifoldeb, cydlyniad a phwysigrwydd.

Ar ôl cynnal asesiad manwl, daeth y Comisiwn i'r casgliad na fodlonwyd y nodweddion hyn yn yr achos hwn. Roedd tystiolaeth annigonol fod Jediaeth a'r Athrawiaeth Jedi fel yr hyrwyddwyd gan y sefydliad yn system gred ddigon strwythuredig, trefnus neu integredig i gyfansoddi crefydd. Roedd y Comisiwn o'r farn bod Jediaeth yn fframwaith rhydd o syniadau â rhywfaint o dir cyffredin y gallai unigolion ei ddehongli fel y gwelant yn briodol. Yn benodol, nid oedd yn orfodol dehongli a dilyn yr Athrawiaeth Jedi fel crefydd.

Ystyriodd y Comisiwn wedyn a allai dibenion hyn gyd-fynd â disgrifiad arall o ddiben elusennol, hybu gwelliant moesol neu foesegol er budd y cyhoedd, yn rhan o'r disgrifiad o ddibenion yn adran 3(1)(m).

Mae'r gyfraith achos i gefnogi hybu moesol neu foesegol y gymuned fel proses elusennol yn brin. Prin yw'r rhesymeg farnwrol yn yr achosion ar gyfer cydnabod y diben hwn. Dyma'r achosion perthnasol: *Re Scowcroft* [1898] 2 Ch 638; Re Hood [1931] 1 Ch 240; R*e Price* [1943] 1 Ch 422; a *Barralet and others v AG (South Place Ethical Society)* [1980] 3 All ER 918.

O'r gyfraith achosion, mae'r Comisiwn o'r farn bod rhaid i sefydliad gynnig tystiolaeth o'r canlynol er mwyn cael ei sefydlu â dibenion sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn:

- bod ganddo nodau eglur a phenodol sy'n ddiffiniad cydlynol yn nodi'r credoau, yr egwyddorion a'r arferion
- bod y credoau, yr egwyddorion a'r arferion yn hygyrch i'r cyhoedd a bod modd iddynt gael eu deall a'u derbyn a'u cymhwyso neu eu gwrthod gan unigolion yn unol â'u dewis neu ddyfarniad unigol o dro i dro
- bod gwelliant moesol yn ganolog i'r credoau a'r arferion
- eu bod yn hybu gwelliant moesol mewn cymdeithas yn gyffredinol yn uniongyrchol
- bod effaith fuddiol gadarnhaol ar y gymdeithas ehangach ac nid y cefnogwyr yn unig
- nad yw'n sefydliad â phwyslais mewnol sydd o fudd i'r aelodau'n unig

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol y byddai diben y sefydliad yn hybu gwelliant moesol neu foesegol er budd y cyhoedd. Roedd y diffyg system strwythuredig o gred yn effeithio ar allu'r sefydliad i ddangos effaith fuddiol.

Darllenwch benderfyniad llawn y Comisiwn

**The Theosophical Society in England**

Ystyriodd y Comisiwn gais gan The Theosophical Society in England (y Gymdeithas) i gofrestru fel elusen.

Penderfynodd y Comisiwn bod y Gymdeithas yn bodloni gofynion elusen o dan y gyfraith, gan ei bod wedi ei sefydlu i hybu gwelliant moesol neu foesegol a hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd.

Mae'r Gymdeithas yn gwmni ac yn olynydd corfforaethol i sefydliad anghorfforedig. Y nodau yw hybu llesiant moesol ac ysbrydol er budd y cyhoedd, a hyrwyddo addysg, trwy hybu ac astudio Theosoffi.

Mae'r nodau yn ailddatganiad modern o nodau'r sefydliad anghorfforedig yn dyddio'n ôl i 1896:

i. Ffurfio cnewyllyn yr Universal Brotherhood of Humanity heb wahaniaethu ar sail hîl, cred, rhyw, dosbarth neu liw.

ii. Annog yr astudiaeth o Grefydd, Athroniaeth a Gwyddoniaeth gymharol.

iii. Ymchwilio i gyfreithiau Natur sydd heb eu hesbonio a'r pwerau sy'n gudd mewn dynion.

Mae'r llysoedd wedi penderfynu yn flaenorol nad oedd y sefydliad rhagflaenol yn elusen, yn rhannol oherwydd nad oedd hyrwyddo theosoffi yn elusennol.

Yn *Re Macaulay's Estate* [1943] Ch 435 roedd Tŷ'r Arglwyddi o'r farn na ellid ystyried bod y nodau a ddatganwyd yn elusennol. Achos ardrethu yw *Berry v St Marylebone Corporation [1958] Ch 406* lle gofynnwyd y cwestiwn pa un a oedd dibenion sefydliad a oedd yn meddiannu eiddo penodol yn ymwneud â hyrwyddo crefydd, addysg neu les cymdeithasol (a.8(1)(a) Deddf Ardrethu a Phrisio (Darpariaethau Amrywiol) 1955).

Roedd y Llys Apêl o'r farn nad oedd y diben ar gyfer hyrwyddo crefydd, addysg neu les cymdeithasol, ond ei fod yn gysyniad athroniaethol neu fetaffisegol ar y gorau.

Wrth ystyried y cais hwn, ystyriodd y Comisiwn theosoffi, nid fel crefydd ond fel hybu gwelliant moesol neu foesegol, ac i ba raddau yr oedd wedi ei rwymo gan benderfyniadau cynharach y llysoedd o ran ei ddull o ymdrin â'r cais hwn.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod y penderfyniadau yn *Re Macaulay's Estate and Berry v St Marylebone Corporation* o werth wrth ystyried a yw'r Gymdeithas yn elusen ond gellid ei wahaniaethu o'r cais hwn ar sail y ffeithiau a'r gyfraith am y rhesymau canlynol:

a. mae'r nodau yr oedd y llysoedd o'r farn nad oeddent yn elusennol wedi cael eu disodli gan ddatganiad o ddibenion mwy cyfoes gyda gofynion cyfraith elusennau mewn golwg ac felly wedi eu fframio o ran dibenion elusennol cydnabyddedig

b. ni ddadleuodd yr awdurdodau cyfreithiol a oedd y gymdeithas wedi ei sefydlu i hybu gwelliant moesol neu foesegol y gymuned fel diben elusennol.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r gyfraith ers 1957 a fyddai'n codi amheuon ynghylch penderfyniad y Llys Apêl yn *Berry v St Marylebone Corporation*. Fodd bynnag, mae'r dull dilynol a fabwysiadwyd gan y llys yn achos elusennol *Barralet and others v AG [1980] 3 All*

*ER 918 (South Place Ethical Society)* yn cynnig rhywfaint o sail ar gyfer archwilio a phenderfynu ei berthnasedd i ddibenion Cymdeithas yn yr oes fodern.

Yn *Barralet*, roedd Dillon J o'r farn nad oedd nodau'r gymdeithas berthnasol ar gyfer hyrwyddo crefydd ond yn elusennol trwy gyfatebiaeth ar gyfer gwelliant meddyliol a moesol dynion gan ddibynnu ar achosion a benderfynwyd *Re Scowcroft* [1898] 2 Ch 638; *Re Hood* [1931] 1 Ch 240 ac *Re Price* [1943] 1 Ch 422.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod tystiolaeth i ddangos bod:

a. nodweddion y diben i hybu gwelliant moesol neu foesegol er budd y cyhoedd wedi eu bodloni

b. hyrwyddo addysg yn un o ddibenion y Gymdeithas.

Yn unol â hynny, cofrestrodd y Comisiwn y Gymdeithas fel elusen.

**Y Gynghrair Cefn Gwlad**

Gwnaeth y Gynghrair Cefn Gwlad (y Gynghrair) gais i gofrestru fel elusen.

Yn 2006, gwnaeth y Gynghrair gais i gofrestru elusen i gyflawni'r agweddau hynny ar ei gwaith yr oedd yn ystyried eu bod yn hyrwyddo dibenion elusennol. Cofrestrwyd Sefydliad y Gynghrair Cefn Gwlad (y Sefydliad), endid cyfreithiol ar wahân i'r Gynghrair, yn 2007. Nid oedd y Gynghrair wedi ei chyfansoddi fel elusen ar yr adeg honno, ac nid oedd ganddi ddibenion gwbl elusennol.

Gwnaeth y Gynghrair gais i gael ei gofrestru gyda datganiad o ddibenion manwl a oedd yn gorgyffwrdd i ryw raddau â rhai'r Sefydliad. Roedd rhai o'r dibenion hyn yn elusennol, ond gall y Comisiwn ddim ond cofrestru sefydliad fel elusen os yw wedi ei sefydlu at ddibenion cwbl elusennol.

Roedd dibenion a ddatganwyd y Gynghrair yn cynnwys:

- hybu amaethyddiaeth, helgig a chynhyrchu bwyd er budd y cyhoedd
- diogelu, gwarchod a hybu treftadaeth ac arfer gweithgareddau yn ymwneud â bywyd gwyllt, cefn gwlad a rheoli bywyd gwyllt gan gynnwys hela, saethu a physgota, ynghyd â rheoli'r amgylchedd naturiol.

Ystyriodd y Comisiwn a oedd y cyntaf o'r dibenion hyn yn cyd-fynd neu'n cyfateb i hybu amaethyddiaeth er budd y cyhoedd, sy'n ddisgrifiad o ddiben yn a.3(1)(m) Deddf Elusennau 2011, ar ôl cael ei gydnabod gan y llysoedd, gan gynnwys gan y Llys Apêl yn *IRC v Yorkshire Agricultural Society [1928] 1 KB 611*. Mae'r Comisiwn wedi derbyn yn y gorffennol bod hybu cynhyrchiad bwyd er budd y cyhoedd yn elusennol yng nghyswllt y diben hwnnw.

Ystyriodd y Comisiwn y modd yr oedd y Gynghrair yn hybu helgig neu gynhyrchu helgig er mwyn ystyried a fyddai hyrwyddo'r diben hwn yn arwain at ganlyniad elusennol ac er budd y cyhoedd.

Roedd yn ymddangos i'r Comisiwn mai prif ganlyniad y diben hwn oedd budd preifat yn cronni i'r rheini a oedd yn ymwneud yn fasnachol a chynhyrchu helgig i'w fwyta. Roedd yn ymddangos felly bod y budd preifat sy'n deillio o'r gweithgarwch hwn yn fwy nag atodol i'r budd i'r cyhoedd a oedd sy'n deillio ohono, a phenderfynodd y Comisiwn yn unol â hynny nad oedd y diben hwn yn gwbl elusennol.

O ran yr ail ddiben a nodir uchod, roedd y Comisiwn o'r farn ei fod yn rhy eang ac ansicr i fod yn gwbl elusennol. Dadleuodd y Gynghrair bod hwn yn ddiben elusennol yn unol â'r disgrifiadau o ddiben hyrwyddo treftadaeth a hyrwyddo amddiffyniad neu welliant

amgylcheddol. Nid oedd yn eglur i'r Comisiwn bod y diben hwn yn cyd-fynd â'r un o'r disgrifiadau hyn, ac ni nododd y Comisiwn unrhyw ddisgrifiadau perthnasol eraill o ddibenion i'w hystyried.

Cydnabuwyd gan y Comisiwn bod rhai o ddibenion y Gynghrair yn elusennol, a bod y Gynghrair yn gwneud gwaith pwysig i ddiogelu a hybu bywyd gwledig a chynrychioli buddiannau pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad o bob cefndir a lleoliad daearyddol. Ond nid yw pob diben sydd o fudd i gymdeithas yn fudd elusennol er budd y cyhoedd.

Yn unol â hynny, gan nad oedd dibenion y Gynghrair yn amlwg yn gwbl elusennol, gwrthododd y Comisiwn gofrestru'r Gynghrair fel elusen. Cyhoeddwyd penderfyniad llawn y Comisiwn, yn cynnwys pob un o saith elfen o ddibenion a ddatganwyd y Gynghrair, ar wefan y Comisiwn.

Darllenwch benderfyniad llawn y Comisiwn